YR ADRAN ADDYSG A PHLANT

Ein Gweledigaeth …yw bod yn adran arloesol, integredig sy'n cefnogi pob plentyn a pherson ifanc ac yn annog dysgu gydol oes

GWASANAETH GWELLA YSGOLION

PERFFORMIAD A CHYRHAEDDIAD YSGOLION 2009-10

Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council

Cynnwys

Tud.

Adran 1
Adroddiad blynyddol ar Asesiadau Athrawon a Chanlyniadau Arholiadau 2009-10 5

Adran 2
Y Fframwaith Arferion Da, Cymorth a Her – Deilliannau Hunanwerthuso 2009-10 35

Adran 3
Deilliannau Arolygiadau Estyn 2009-10 45

Adran 4
Datblygu gwerthoedd a sgiliau ar gyfer dysgu gydol oes 55

Adran 5
Gwaharddiadau yn ysgolion Sir Gaerfyrddin 2009-10 99

Adran 6
Presenoldeb yn ysgolion Sir Gaerfyrddin 2009-10 105

Adran 1:
Adroddiad blynyddol ar Asesiadau Athrawon a Chanlyniadau Arholiadau 2009-10

Adroddir ar Gyfnodau Allwedool (CA) 1,2 a 3 o ran:-

- Pynciau yn gyffredinol
- Dangosydd Pwnc Craidd (DPC)
- Cymhariaeth rhwng y rhywiau
- Cymraeg, Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth

Adroddir ar Gyfnod Allweddol 4 o ran:-

- Lefelau Trothwy 1 a 2
- Dangosydd Pwnc Craidd
- Rhyw
- Sgôr gyfartalog pwyntiau
- % a adawodd addysg llawn-amser heb gymhwyster (LENQ)

Adroddir ar Gyfnod Allweddol 5 o ran:-

- Trothwy lefel 3
- Sgôr gyfartalog pwyntiau

Cyfnod Allweddol 1

Pynciau yn gyffredinol

- Mae'r darlun cyffredinol yn gadarnhaol yn CA1 gan fod y deilliannau ym mhob pwnc yn dangos ffigurau uwch nag yn 2008.
- Mae'r deilliannau yn y Gymraeg, Mathemateg, Gwyddoniaeth a'r Dangosydd Pwnc Craidd ar eu huchaf ers 2006.
- Mae'r deilliannau mewn Mathemateg a Gwyddoniaeth yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol.



Dangosydd Pwnc Craidd
(Disgyblion sy'n cyflawni L2 mewn Mathemateg, Gwyddoniaeth a naill ai Cymraeg neu Saesneg)

- Y newid ym mhwynt % canlyniadau DPC o 2009 oedd 1.7% ac o ganlyniad mae'r bwlch rhwng Sir Gaerfyrddin a'r cyfartaledd cenedlaethol yn 2010 wedi lleihau i 0.2%.
- Mae'r dangosydd hwn yn awgrymu bod y bwlch rhwng deilliannau Sir Gâr o'i gymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol yn parhau i leihau.
- Dros y tair blynedd diwethaf mae % Cymru Gyfan o'r garfan sy'n cyflawni DPC wedi cynyddu 0.9%, yn Sir Gaerfyrddin dros yr un cyfnod mae'r cynnydd yn 4.9%.



DPC – Cymhariaeth rhwng y rhywiau

- Yn 2010 perfformiodd Merched yn well na'r cyfartaledd cenedlaethol o 1.2%, gan barhau â'r patrwm gwelliant dros dair blynedd.
- Mae'r bwlch rhwng Bechgyn a'r ffigur cyfatebol cenedlaethol yn lleihau (2009 2.6% a 2008, 6%). Serch hynny yn parhau yn 0.8% yn is na'r ffigur cenedlaethol ar gyfer Bechgyn yn 2010.
- Hefyd da yw nodi bod y bwlch rhwng Bechgyn a Merched yn Sir Gaerfyrddin dros y ddwy flynedd diwethaf yn lleihau. Mae hyn yn amlygu gwelliant parhaus mewn cyrhaeddiad Bechgyn yn y sir.



Cymraeg ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 1

L2+ Cymraeg

- Bu cynnydd cyson yn y % o ddisgyblion sy'n cyflawni L2 yn Gymraeg ers 2008.
- Mae deilliannau yn Gymraeg ar gyfer disgyblion CA1 ar ffigur newydd o 88.6%.
- Mae'r cynnydd dros 4 blynedd o'r ffigur cyfatebol yn 2007/8 yn 3%.
- Mae'r bwlch rhwng Sir Gaerfyrddin a Chymru yn lleihau; 1.4% 2010. Yn 2009 roedd y bwlch yn 1.9% ac yn 2008 yn 3.3%.



Cymraeg - Cymhariaeth rhwng y rhywiau

- Mae'r deilliannau ar gyfer Bechgyn yn y Gymraeg yn parhau i wella (84% yn cyflawni L2).
- Y newid ym mhwynt % o 2009 oedd 1.4%. Nid oedd unrhyw welliant yn y Bechgyn a gyflawnodd L2 yn y Gymraeg ar draws Cymru.
- Y bwlch ar hyn o bryd rhwng Bechgyn a ffigur cyfatebol Cymru gyfan yw 2.8%. Mae'r bwlch hwn yn llai nag yn 2009 (4.2%)
- Roedd y Merched a gyflawnodd L2 Cymraeg wedi gostwng 1.3%, serch hynny yn parhau yn uwch na'r ffigur cyfatebol cenedlaethol.
- Mae'r bwlch rhwng y rhywiau yn Sir Gaerfyrddin yn lleihau, Yn 2010 roedd y bwlch yn 9.2%, y ffigur cyfatebol yn 2009 oedd 11.9% ac yn 2008 12.4%. Yn 2010 gallai'r dirywiad yn y % o Ferched a gyflawnodd L2 fod yn ffactor; serch hynny mae'n bwysig cydnabod y gwelliant parhaus a wneir gan y Bechgyn.



Llefaredd, Darllen ac Ysgrifennu yn y Gymraeg.

- Mae dangosyddion ar gyfer llefaredd ac ysgrifennu yn dangos patrwm o gynnydd mewn % ers 2008.
- Mae'r cyrhaeddiad mewn ysgrifennu, er yn llusgo y tu ôl i sgiliau ieithyddol eraill, yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol am y tro cyntaf ers 2007.
- Mae canlyniadau llefaredd ac ysgrifennu ar eu huchaf ers 2007 ac mae'r gwahaniaeth rhwng yr ALl a'r cyfartaledd cenedlaethol yn lleihau mewn llefaredd (-1.5%).
- Roedd canlyniadau darllen yn 2010 yn is nag yn 2009 (-0.7%,).



<table>
<tr><th colspan="2">Saesneg ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 1</th></tr>
<tr><td>L2+ Saesneg
Bu cynnydd cyson yn y % o ddisgyblion sy'n cyflawni L2 yn Saesneg ers 2008.
Mae'r bwlch rhwng Sir Gaerfyrddin a chyfartaledd Cymru yn parhau i leihau 2010 (-2.7%), 2009 (-4%) a 2008(-7.4%)
Er ein bod yn croesawu'r patrwm hwn o welliant dros y ddwy flynedd diwethaf, mae'n dal yn amlwg bod y bwlch rhwng cyraeddiadau'r ALl a'r ffigurau cenedlaethol yn fwy yn Saesneg nag yn y pynciau eraill yn CA1.</td><td> 
</td></tr>
<tr><td>Saesneg - Cymhariaeth rhwng y rhywiau
Gellir gweld patrwm o welliant yn y deilliannau ar gyfer Bechgyn o'i gymharu â 2008 (+5.1%,) gan leihau'r bwlch rhwng ffigur Cymru i 3.9%
Roedd y deilliannau ar gyfer Merched yn parhau'n gyson o 2009, gydag ond mymryn o ostyngiad o 0.1%.
Mae'r bwlch rhwng y rhywiau o fewn Sir Gaerfyrddin yn lleihau, yn 2010 roedd y bwlch yn 11.5%, yn 2009 roedd y bwlch yn 13.3%
Mae carfan Merched a Bechgyn yn Sir Gaerfyrddin yn is na'r cyfartaledd Cymru Gyfan ar gyfer y dangosydd hwn. Merched o 2% a Bechgyn o 3.9%.</td><td> 
</td></tr>
</table>

Llefaredd, Darllen ac Ysgrifennu yn Saesneg.

- Mae patrwm o welliant dros ddwy flynedd yn amlwg mewn darllen, gyda'r deiliannau ar eu huchaf ers 2007. Mae'r un patrwm hwn o welliant yn amlwg hefyd mewn ysgrifennu er bod y sgil hon yn parhau 4% yn is na'r ffigur cyfatebol am Gymru gyfan.
- Yn dilyn gwelliant yn 2009 roedd ychydig o ostyngiad o (0.2%) mewn llefaredd yn 2010. Ni fyddai hyn yn gyson â'r ffigur cyfatebol cenedlaethol lle mae'r deilliannau llefaredd yn parhau'n gyson uwch na'r deilliannau mewn sgiliau allweddol eraill yn Saesneg. Calonogol yw gweld bod y bwlch yn lleihau ar y cyfan rhwng dangosyddion Saesneg a'r ffigur cyfatebol cenedlaethol.



Mathemateg ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 1

L2+ Mathemateg

- Mae'r deilliannau mewn Mathemateg yn uwch na'r ffigurau cyfatebol cenedlaethol am y tro cyntaf ers 2006, yn dilyn gwelliant o 3.5% o'i gymharu â 2008.
- Mae'r garfan Merched a Bechgyn yn Sir Gaerfyrddin yn well na'r cyfartaleddau Cymru Gyfan yn y dangosydd hwn. Merched o 0.1% a Bechgyn o 0.6% .
- O'i gymharu â 2009 roedd y deilliannau ar gyfer Bechgyn wedi codi 3.8%, serch hynny roedd ffigur y Merched wedi gostwng 0.1%
- Mae'r bwlch rhwng y rhywiau yn Sir Gaerfyrddin wedi lleihau i 3.2% yn 2010, y ffigur cyfatebol am Gymru Gyfan yw 3.7%



Gwyddoniaeth ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 1	
L2+ Gwyddoniaeth ▪ Mae'r deilliannau mewn Gwyddoniaeth yn uwch na'r ffigurau cyfatebol cenedlaethol am y tro cyntaf ers 2006, yn dilyn gwelliant o 4.4% o'i gymharu â 2008. ▪ Mae'r garfan Merched a Bechgyn yn Sir Gaerfyrddin sy'n cyflawni L2 mewn Gwyddoniaeth yn well na chyfartaledd Cymru Gyfan ar gyfer y dangosydd hwn o 0.5%. O'i gymharu â 2009 bu cynnydd o 1% ar gyfer merched yn Sir Gaerfyrddin, yn genedlaethol bu cynnydd hefyd o 1%. ▪ Roedd y deilliannau ar gyfer bechgyn yn gyfartal â'r ffigurau cyfatebol cenedlaethol o 88.4%. Mae'r deilliannau ar gyfer bechgyn yn dangos gwelliant o 6.1% o'i gymharu â'r dangosydd yn 2008. Yn yr un cyfnod gwelwyd gwelliant yn genedlaethol o 2.5%	

Cyfnod Allweddol 2

Pynciau yn gyffredinol

- Y garfan a aseswyd ar ddiwedd CA2 yn Sir Gaerfyrddin oedd 1861 o ddisgyblion.
- O'r garfan hon roedd 953 yn fechgyn a 908 yn ferched.
- Nifer y disgyblion a aseswyd yn y Gymraeg fel iaith gyntaf oedd 914 (51%) a'r Gymraeg fel ail iaith oedd 905 (49%) o ddisgyblion.
- Ar y cyfan siomedig oedd y darlun yn 2010 gyda methiant i adeiladu ar y cynnydd a wnaed yn 2009 yn Saesneg a Gwyddoniaeth. Gwnaed rhywfaint o gynnydd mewn mathemateg a gwelliant o 0.9% yn y Gymraeg.



Dangosydd Pwnc Craidd

- Y canran o ddisgyblion sy'n cyflawni DPC yn 2010 yw 75.6%
- Ar ôl gweld gwelliant yn DPC yn 2009 gwelwyd peth dirywiad o 0.4% yn 2010.



DPC – Cymhariaeth rhwng y rhywiau

- Gwelir gwelliant yn y canran o Fechgyn sy'n cyflawni DPC yn 2010 (72.7 %.) - ffigur newydd sy'n uwch na'r ffigur cyfatebol cenedlaethol o 72.6%
- Y canran o Ferched sy'n cyflawni DPC yw 78.5%; mae hyn yn is na'r ffigur cyfatebol cenedlaethol o 81.7%
- Mae'r bwlch rhwng y rhywiau yn Sir Gaerfyrddin yn lleihau; yn 2010 roedd yn 5.8% o'i gymharu â 7.5% yn 2009 a 10.3% yn 2008. Gellir priodoli hyn i'r gwelliant yng nghyrhaeddiad Bechgyn.



Cymraeg ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2

L4+ Cymraeg

- Dros y tair blynedd diwethaf mae'r garfan sy'n cyflawni L4+ Cymraeg wedi cynyddu 4%.
- Aseswyd 914 o ddisgyblion yn Gymraeg, bron iawn i 50% o garfan gyfan blwyddyn 6 yn Sir Gaerfyrddin.
- Perfformiad disgyblion yn ôl Asesiadau Athrawon yw 75.1% sef cynnydd o 0.9% o ffigur y llynedd. Roedd canlyniad Cymru Gyfan yn ddigyfnewid o 2009 ar 79.9%.



Cymraeg - Cymhariaeth rhwng y rhywiau

- Y canran o Fechgyn yn cyflawni L4 yw 70.3% sef ffigur newydd ar gyfer Sir Gaerfyrddin a newid ym mhwynt % o 2.9% ers 2009.
- Y bwlch rhwng Bechgyn a'r ffigur cyfatebol cenedlaethol yw 2.9%
- Roedd y deilliannau ar gyfer Merched yn 2010 i lawr 1.4% o'i gymharu â 2009. Mae'r ffigur hwn 6.7% yn is na'r ffigur cyfatebol cenedlaethol ar gyfer Merched.
- Mae'r bwlch rhwng y rhywiau yn Sir Gaerfyrddin yn 9.4%, y ffigur cyfatebol cenedlaethol yw 13.2%



Llefaredd, Darllen ac Ysgrifennu yn Saesneg.

- Mae'r gwelliant yn amlwg mewn Darllen a Llefaredd gyda'r targedau cyrhaeddiad yn y ddau yn cyrraedd ffigurau newydd yn 2010. Llefaredd yn 79.3% a darllen yn 76.1%
- Mae Llefaredd yn dal yn 3.5% yn is na'r dangosydd cenedlaethol ac mae hyn yn cael effaith ar ddeilliannau Asesiadau Athrawon yn y Gymraeg gan fod targedau cyrhaeddiad wedi'u pwysoli o blaid Llefaredd (Llefaredd -X4, Darllen-X3, Ysgrifennu-X3)
- Mae'r % o ddisgyblion sy'n cyflawni L2+ mewn darllen yn 76.1%. Mae'r ffigur hwn 4% yn is na'r ffigur cyfatebol cenedlaethol.
- Asesiadau athrawon ar gyfer Ysgrifennu yn 2010 yw 66.4% o'i gymharu â 66.9% yn 2009. Mae Ysgrifennu yn 2010 4.4% yn is na'r ffigur cenedlaethol.



Saesneg ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2	
L4+ Saesneg ▪ Y canran o ddisgyblion sy'n cyflawni L4 yn Saesneg yw 79.8% o'i gymharu â 80.5% yn 2009. ▪ Ffigur Cymru Gyfan yn 2010 yw 81% sy'n gyson â'r ffigur am 2009.	
Saesneg - Cymhariaeth rhwng y rhywiau. ▪ Mae'r % o Fechgyn sy'n cyflawni L4 wedi codi i ffigur newydd o 75.2%, (0.4% yn is na'r ffigur cenedlaethol) ▪ Yr asesiadau athrawon ar gyfer Merched yn 2010 yw 84.7%. Mae hyn 2% yn is na'r ffigur cenedlaethol. ▪ Y bwlch rhwng y rhywiau yn Sir Gaerfyrddin yn 2010 yw 9.5%. Y ffigur cyfatebol cenedlaethol yw 11.1%. Serch hynny nodir mai'r prif ffactor sy'n cyfrannu at leihau'r bwlch yw'r gostyngiad yng nghyrhaeddiad Merched yn 2010.	

Llefaredd, Darllen ac Ysgrifennu yn Saesneg.

- Y % o ddisgyblion sy'n cyflawni L4 mewn Llefaredd yw 82%, sef mymryn o newid o'r 82.7% yn 2009.
- Roedd asesiadau Darllen wedi cofnodi ffigur newydd o 80.3% sydd bron iawn yn gyfartal â'r ffigur cyfatebol cenedlaethol o 80.8%.
- Y dangosydd ar gyfer Ysgrifennu oedd 74.3% sy'n gyson â'r cyfartaledd cenedlaethol o 74.4%
- Gwelwyd y gostyngiad mwyaf yn Llefaredd.



Mathemateg ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2

L4 Mathemateg

- Y canran o ddisgyblion sy'n cyflawni L4+ mewn Mathemateg oedd 81.2%, sef ffigur newydd ers 2006. Mae'r ffigur hwn 1.3% yn is na'r ffigur cyfatebol cenedlaethol o 82.5%
- Y canran o Fechgyn sy'n cyflawni L4+ yw 80.6% sy'n uwch na'r ffigur Cymru Gyfan o 80.3%. Mae'r ffigur hwn o 80.6% ar gyfer Bechgyn yn y sir hefyd yn ffigur newydd ers 2006.
- Y canran o Ferched sy'n cyflawni L4+ yn 2010 yw 81.8% o'i gymharu â ffigur 2009 o 83.1%. Y ffigur cyfatebol cenedlaethol yn 2010 yw 84.8%



L4 Gwyddoniaeth

- Perfformiad disgyblion yn ôl Asesiadau Athrawon yw 86.3% o'i gymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol o 86.4%.
- Roedd y % oedd yn cyflawni L4+ mewn Gwyddoniaeth yn 2009 ychydig yn uwch ar 86.6%
- Y canran o Fechgyn sy'n cyflawni L4+ yw 72.7% sy'n uwch na'r ffigur cyfatebol cenedlaethol.
- Mae'r canran o Fechgyn sy'n cyflawni L4 mewn Gwyddoniaeth hefyd yn ffigur newydd ar gyfer yr awdurdod (72.7%), sy'n gynnydd o 0.8% o 2009. Roedd y dangosydd cenedlaethol ar gyfer bechgyn wedi parhau'n ddigyfnewid ers 2009.
- Y canran o Ferched sy'n cyflawni L4 yw 78.5%; 1.4% yn is na ffigur y llynedd.



Cyfnod Allweddol 3

Pynciau yn gyffredinol

- Y garfan a aseswyd ar ddiwedd CA3 yn Sir Gaerfyrddin oedd 2158 o ddisgyblion.
- O'r garfan hon roedd 1123 yn Fechgyn a 1035 yn Ferched.
- Y nifer o ddisgyblion a aseswyd yn Gymraeg iaith gyntaf oedd 766 (35%) ac yn Gymraeg ail iaith oedd 1392 (65%) o ddisgyblion.



Dangosydd Pwnc Craidd

- Mae'r canran sydd wedi cyflawni DPC wedi gostwng 1.4% i 60.1%. Roedd ffigur cyfartaledd Cymru Gyfan wedi aros yn ddigyfnewid ar 61.3%
- Yn 2010 gwelwyd cyfartaledd yr ALl yn disgyn 1.2% yn is na'r ffigur cyfatebol am Gymru gyfan.



DPC – Cymhariaeth rhwng y rhywiau

- Y canran o Ferched sy'n cyflawni DPC yn 2010 yw 66.3%. Mae hyn 0.4% yn is nag yn 2009, serch hynny yn dal yn uwch na'r ffigur cenedlaethol.
- Y canran o Fechgyn sy'n cyflawni DPC yn 2010 yw 54.5%. Mae hyn 1.7% yn is nag yn 2009.
- Mae 56.7% o Fechgyn a 66.2% o Ferched yn cyflawni'r DPC yn genedlaethol.
- Yn genedlaethol ers 2008 bu cynnydd o 1.9% yn y DPC ar gyfer Bechgyn. Yn ystod yr un cyfnod mae'r DPC ar gyfer Bechgyn yn Sir Gaerfyrddin wedi gostwng 3.8%.



Cymraeg ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3

L5 Cymraeg

- Dros y ddwy flynedd mae'r garfan sy'n cyflawni L5+ Cymraeg wedi cynyddu 2.7%. Mae'r cyfartaledd Cymru Gyfan wedi cynyddu 2.8%
- Y canran o ddisgyblion sy'n cyflawni L5+ yn Gymraeg oedd 72.7%, ffigur newydd ar gyfer Sir Gaerfyrddin; serch hynny mae'r ffigur hwn yn dal i fod 2.4% yn is na'r cyfartaledd cyfredol ar gyfer Cymru.



Cymraeg - Cymhariaeth rhwng y rhywiau

- Y canran o Fechgyn sy'n cyflawni L5 yw 66.8%, ffigur newydd ar gyfer Sir Gaerfyrddin a newid ym mhwynt % o 4.1% ers 2009. Y ffigur cyfatebol cenedlaethol yw 66.6%.
- Gallwn weld patrwm o welliant dros 4 blynedd ar gyfer Bechgyn gyda phwynt newid o 6.18% ers 2007. Y newid cyfatebol cenedlaethol ers 2007 fyddai 2.6%
- Mae'r dangosyddion asesiadau yn ddiweddar ar gyfer Merched yn Sir Gaerfyrddin wedi bod yn is na'r ffigur cyfatebol cenedlaethol am y 3 blynedd gyda'r bwlch yn lledu i 5.3% yn 2010. Y patrwm cenedlaethol ar gyfer Merched yw un o welliant.



Saesneg ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3

L5 Saesneg

- Perfformiad disgyblion yn ôl Asesiadau Athrawon yn 2010 yw 69.8% sef gostyngiad o 0.8% ar ffigur y llynedd. Roedd canlyniad Cymru Gyfan wedi aros yr un fath ar 70.6% o 2009.
- Dros y ddwy flynedd diwethaf gwelwyd patrwm o ostyngiad o 3.6% yn y canran o ddisgyblion sy'n cyflawni L5 yn Saesneg. Yn genedlaethol bu gwelliant o 1.1%



Saesneg - Cymhariaeth rhwng y rhywiau

- Y canran o Ferched yn Sir Gaerfyrddin sy'n cyflawni L5 yn Saesneg yw 79.3%. Mae'r ffigur hwn 1% yn uwch na'r ffigur cenedlaethol ar gyfer Merched. Bu cynnydd o 0.2% o'i gymharu â chyfartaledd yr Awdurdod ar gyfer Merched yn 2009.
- Mae'r darlun yn llai cadarnhaol ar gyfer Bechgyn gan eu bod 2.3% y tu ôl i'r ffigur cenedlaethol ar gyfer Bechgyn. Hefyd bu dirywiad o 5.5% o'i gymharu â'r ffigur ar gyfer Bechgyn yn 2008.
- Yn Sir Gaerfyrddin mae'r bwlch rhwng y rhywiau yn 2010 yn 18.3%. Y ffigur cyfatebol cenedlaethol yn 2010 yw 15%.
- Yn fwy pryderus y mae'r modd y mae'r bwlch hwn rhwng y rhywiau yn lledu, 2010 18.3%, 2009 16.6%, 2008 13.8%.
- Mae patrwm o welliant dros bedair blynedd ar gyfer Merched a Bechgyn yn genedlaethol.



Mathemateg ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3

L5+ Mathemateg

- Ar ôl bod yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol rhwng 2006-2008, mae cyrhaeddiad disgyblion yn Sir Gaerfyrddin 0.7% yn is na'r ffigur am Gymru gyfan yn 2010.
- Mae'r dangosydd cyfredol ar gyfer mathemateg yn weddol gyson ers 2008.



Mathemateg - Cymhariaeth rhwng y rhywiau.

- Mae'r Merched fodd bynnag yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol ar hyn o bryd ers 2009. Yn 2010 y bwlch rhwng Merched Sir Gaerfyrddin a Merched yn genedlaethol yw 0.2%.
- Mae Bechgyn Sir Gaerfyrddin ar ei hôl hi o'i gymharu â'r ffigur cenedlaethol ar gyfer Bechgyn o 1.5%.
- Y bwlch rhwng y rhywiau o fewn yr Awdurdod yn 2010 yw 4.5%; yn 2009 roedd y bwlch hwn yn 3.9% ac yn 2008 2.3%. Y bwlch yn genedlaethol rhwng y rhywiau yn 2010 yw 2.9%
- Mae'r bwlch rhwng y rhywiau ar draws Cymru mewn mathemateg yn lleihau ers 2008.



L5+ Gwyddoniaeth

- Ar ôl bod yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol rhwng 2006-2008, mae cyrhaeddiad disgyblion yn Sir Gaerfyrddin 2.3% yn is na'r ffigur am Gymru gyfan.
- Gwelwyd patrwm o ostyngiad mewn Gwyddoniaeth dros y ddwy flynedd diwethaf o 3% ers 2008, ac yn yr un cyfnod bu gwelliant o 1.9% mewn deilliannau Gwyddoniaeth disgyblion yn genedlaethol.



Gwyddoniaeth - Cymhariaeth rhwng y rhywiau

- Yn 2010 syrthiodd cyflawniad Merched a Bechgyn yn Sir Gaerfyrddin yn is na'r ffigurau cenedlaethol o 1.5% (Merched) a 2.9% (Bechgyn).
- Rhwng 2008 a 2009 bu gostyngiad o 4.9% yn y canran o Fechgyn oedd yn cyflawni L5+ mewn Gwyddoniaeth.
- Mae'r bwlch rhwng y rhywiau yn Sir Gaerfyrddin ar hyn o bryd yn lledu. Cymhariaeth bechgyn/merched yn 2010 -5.2%, 2009 -3.3%, 2008 -2.3%. Y dangosydd cenedlaethol yn 2010 yw 3.8%.
- Y patrwm yn genedlaethol ar gyfer Merched a Bechgyn yw un o welliant.



Cyfnod Allweddol 4

Mae'r Trothwy Lefel 1 yn cynrychioli dysg sy'n gyfwerth â 5 TGAU ar raddfa D i G.
Mae'r Trothwy Lefel 2 yn cynrychioli dysg sy'n gyfwerth â 5 TGAU ar raddfa A* i C.

- Dros y pedair blynedd diwethaf mae % carfan Sir Gaerfyrddin sy'n cyflawni trothwy Lefel 1 a Lefel 2 wedi cynyddu.
- Dros y pedair blynedd diwethaf mae % carfan Sir Gaerfyrddin sy'n cyflawni trothwy Lefel 2 a'r Gymraeg /Saesneg a Mathemateg wedi cynyddu.
- Dros y pedair blynedd mae canran y disgyblion sy'n cyflawni'r Dangosydd Pwnc Craidd yn CA4 hefyd wedi cynyddu.



Dangosydd Pwnc Craidd yn CA4

- Y canran o ddisgyblion sy'n cyflawni'r DPC yn 2010 yw 52%
- Mae'r canran o ddisgyblion sy'n cyflawni'r DPC yn 2010 5% yn uwch na chyfartaledd Cymru Gyfan.
- Ers 2007 gwelwyd cynnydd o 8% yng nghanran y disgyblion sy'n cyflawni'r DPC. Y ffigur cyfatebol cenedlaethol am yr un cyfnod fyddai 7%



DPC - Cymhariaeth rhwng y rhywiau

- Yn 2010 mae'r Bechgyn a'r Merched sy'n cyflawni'n sylweddol uwch mewn DPC na'r ffigur cenedlaethol. Mae'r Bechgyn 6% yn uwch na'r cyfartaledd tra bod y Merched 3% yn uwch na'r ffigur Cymru Gyfan.
- Ers 2007 bu cynnydd o 10.9% yn y % o Fechgyn sy'n cyflawni'r DPC. Y ffigur cenedlaethol ar gyfer Bechgyn yn yr un cyfnod yw 7.4%
- Yn Sir Gaerfyrddin y bwlch rhwng y rhywiau yn 2010 yw 2%, yn genedlaethol y bwlch yn 2010 yw 5%.



Mae'r Trothwy Lefel 1 yn cynrychioli dysg sy'n gyfwerth â 5 TGAU ar raddfa D i G.

- Mae'r canran sy'n cyflawni Trothwy Lefel 1 wedi cynyddu 1.7% ar ffigur y llynedd.
- Yn 2010 mae'r canran o ddisgyblion sy'n cyflawni trothwy L1 3% yn uwch na'r cyfartaledd Cenedlaethol.
- Ers 2007 mae'r % Cymru Gyfan o'r garfan a gyflawnodd Trothwy Lefel 1 wedi cynyddu 3%, yn Sir Gaerfyrddin yn yr un cyfnod mae'r cynnydd yn 5%.



Trothwy Lefel 1 - Cymhariaeth rhwng y rhywiau.

- Yn 2010 mae'r bwlch rhwng y rhywiau ar gyfer disgyblion Sir Gaerfyrddin wedi lleihau i 2%. Yn 2009 roedd y bwlch yn 4.1% ac yn 2008 roedd y bwlch yn fwy ar 4.2%. Y bwlch rhwng y rhywiau yn 2010 yng Nghymru Gyfan yw 5%.
- Dros y pedair blynedd diwethaf mae % Cymru Gyfan o Ferched sy'n cyflawni'r Trothwy Lefel 1 wedi cynyddu 3.2%, yn Sir Gaerfyrddin am yr un cyfnod y cynnydd yw 2.1%.
- Mae'r darlun ar gyfer Bechgyn yn dra gwahanol. Dros y pedair blynedd diwethaf mae % Cymru Gyfan o Fechgyn sy'n cyflawni'r Trothwy Lefel 1 wedi cynyddu 3.7%, yn Sir Gaerfyrddin am yr un cyfnod mae'r cynnydd yn 7.9%.



Mae'r Trothwy Lefel 2 yn cynrychioli dysg sy'n gyfwerth â 5 TGAU ar raddfa A* to C.

- Mae'r canran sy'n cyflawni Trothwy Lefel 2 wedi cynyddu 2% ar ffigur y llynedd.
- Yn 2010 mae'r canran o ddisgyblion sy'n cyflawni trothwy L2 1% yn uwch na'r cyfartaledd Cenedlaethol.
- Ers 2007 mae'r % Cymru Gyfan o'r garfan a gyflawnodd Trothwy Lefel 2 wedi cynyddu 8%, yn Sir Gaerfyrddin yn yr un cyfnod mae'r cynnydd yn 3.8%.



Trothwy Lefel 2 - Cymhariaeth rhwng y rhywiau.

- Yn 2010 mae'r bwlch rhwng y rhywiau ar gyfer disgyblion Sir Gaerfyrddin wedi lleihau i 9%. Yn 2009 roedd y bwlch yn 12.3% ac yn 2008 roedd y bwlch yn fwy ar 13.8%. Y bwlch rhwng y rhywiau yn 2010 yng Nghymru Gyfan yw 10%.
- Dros y pedair blynedd diwethaf mae % Cymru Gyfan o Ferched sy'n cyflawni'r Trothwy Lefel 2 wedi cynyddu 7.7%, yn Sir Gaerfyrddin am yr un cyfnod y cynnydd yw 1.2%.
- Dros y pedair blynedd diwethaf mae % Cymru Gyfan o Fechgyn sy'n cyflawni'r Trothwy Lefel 2 wedi cynyddu 8%, yn Sir Gaerfyrddin am yr un cyfnod mae'r cynnydd yn 5.9%. Mae canran y Bechgyn sy'n cyflawni'r Trothwy L2 wedi parhau'n uwch na'r ffigur Cymru Gyfan ar gyfer Bechgyn ers 2007.



% y disgyblion sy'n cyflawni'r Trothwy Lefel 2 a'r Gymraeg/Saesneg a Mathemateg.

- Y canran sy'n cyflawni'r Trothwy Lefel 2 gan gynnwys C/S a M yw 52%, mae'r ffigur hwn 3% yn uwch na'r ffigur cenedlaethol o 49%.
- Mae'r canran sy'n cyflawni'r Trothwy Lefel 2 gan gynnwys C/S a M wedi cynyddu 2.5%. Y ffigur cyfatebol Cymru Gyfan yw 3.4%



Trothwy Lefel 2 a'r Gymraeg/Saesneg a Mathemateg - Cymhariaeth rhwng y rhywiau

- Mae'r % o Ferched sy'n cyflawni'r Trothwy Lefel 2 a C/S a Mathemateg wedi cynyddu 1.3% ar ffigur y llynedd. Yn genedlaethol gwelwyd cynnydd o 0.7% yng nghyflawniad Merched.
- Dros y tair blynedd diwethaf mae % y Bechgyn sy'n cyflawni'r Trothwy L2 a C/S a Mathemateg wedi cynyddu 6%. Yn genedlaethol gwelwyd cynnydd o 3.3% yng nghyflawniad Bechgyn.
- Mae'r Merched a'r Bechgyn yn parhau'n uwch na'r ffigurau cenedlaethol o 3% a 5%.
- Mae'r bwlch rhwng y rhywiau yn Sir Gaerfyrddin wedi lleihau i 5%. Roedd y bwlch yn 2009 yn 8.1% ac yn 2008 roedd gwahaniaeth o 11.5%



Y sgôr gyfartalog pwyntiau ehangach.

- Mae'r sgôr gyfartalog pwyntiau ehangach yn Sir Gaerfyrddin wedi cynyddu 14.8 pwynt ar y llynedd. Roedd sgôr Cymru Gyfan wedi cynyddu 8.2 pwynt.
- Dros y pedair blynedd diwethaf y cynnydd cyfartalog yn y sgôr pwyntiau yn Sir Gaerfyrddin yw 25% ar gyfer Bechgyn, 12% ar gyfer Merched. Yn genedlaethol y ffigurau yw cynnydd o 14% ar gyfer Bechgyn a chynnydd o 11% ar gyfer Merched.

Mae unrhyw gymhwyster ar unrhyw lefel o'r Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol a gymeradwywyd i'w ddefnyddio yng Nghymru sy'n denu gwerth pwyntiau yn cyfrannu at y sgôr gyfartalog pwyntiau ehangach. (Mae'r pwyntiau yn amrywio yn ôl gradd felly mae TGAU ar radd C gwerth 40 pwynt, ond mae'r un cymhwyster ar radd A gwerth 58.)*



% a adawodd addysg llawn-amser heb gymhwyster (LENQ)

- Cafodd y targed o 0.9% yn gadael Addysg Llawn-amser heb Gymhwyster yn Sir Gaerfyrddin ei ddiwallu. Yn 2010 mae'r canran hwn yn 0.4%
- Dros y tair blynedd diwethaf mae'r ffigur gadael heb gymhwyster yn Sir Gaerfyrddin wedi gostwng 1.4%. Mae'r gostyngid yn y ffigur ar gyfer Bechgyn (2.8%) yn ardderchog. Ar gyfer Merched y ffigur yw 0.8%
- Mae ffigur Sir Gaerfyrddin o 0.4% yn is o lawer na'r ffigur Cenedlaethol.



Cyfnod Allweddol 5

Cyhoeddir crynodeb o Berfformiad Ysgolion Uwchradd fesul Ysgol Uwchradd. Cymerir y wybodaeth a ddarperir ar gyfer pob AALl o Ganlyniadau Arholiadau yng Nghymru 2009/10.

Canfyddiadau Allweddol

- Mae'r canran o ddisgyblion yng ngharfan Sir Gaerfyrddin sydd wedi cyflawni trothwy Lefel 3 (sy'n cyfateb i 2 Lefel A Gradd A-E) yn 97%. Mae hyn 0.4% yn is nag yn 2009. Y ffigur cenedlaethol yw 96%. Yn hyn o beth, Sir Gaerfyrddin yw'r sir sy'n perfformio orau yng Nghymru.

- Cyfartaledd Sir Gaerfyrddin ar gyfer Merched yw 98% o'i gymharu â'r cyfartaledd Cenedlaethol o 96%.

- Cyfartaledd Sir Gaerfyrddin ar gyfer Bechgyn yw 95% sydd 2% yn uwch na'r cyfartaledd Cenedlaethol ar gyfer Bechgyn o 93%.

Y sgôr gyfartalog pwyntiau ehangach

Mae unrhyw gymhwyster ar unrhyw lefel o'r Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol a gymeradwywyd i'w ddefnyddio yng Nghymru sy'n denu gwerth pwyntiau yn cyfrannu at y sgôr gyfartalog pwyntiau ehangach. (Mae'r pwyntiau yn amrywio yn ôl pwnc a gradd.)

- Y sgôr gyfartalog pwyntiau ehangach ar gyfer disgyblion 17 oed yng ngharfan Sir Gaerfyrddin yw 759. Y sgôr gyfartalog pwyntiau ehangach yn 2009 oedd 729. Mewn pedair blynedd mae'r sgôr gyfartalog pwyntiau ehangach wedi cynyddu o 691 i 759. Mae hyn yn gynnydd o 9.8%.

- Cyfartaledd Cenedlaethol y garfan yw 763.

- Sgôr gyfartalog pwyntiau ehangach Sir Gaerfyrddin ar gyfer Merched yw 800; y cyfartaledd Cenedlaethol ar gyfer Merched yw 795. Dros y pedair blynedd diwethaf mae'r sgôr gyfartalog pwyntiau ehangach ar gyfer Merched wedi cynyddu o 711 i 800. Mae hyn yn gynnydd o 12.5%

- Sgôr gyfartalog pwyntiau ehangach Sir Gaerfyrddin ar gyfer Bechgyn yw 706; y cyfartaledd Cenedlaethol ar gyfer Bechgyn yw 726. Dros y pedair blynedd diwethaf mae'r sgôr gyfartalog pwyntiau ehangach ar gyfer Bechgyn wedi cynyddu o 585 i 706. Mae hyn yn gynnydd o 20.7%

Casgliad a Sylwadau Gwerth Ychwanegol
Yng **Nghyfnod Allweddol 1** gwelwyd cynnydd dros y ddwy flynedd diwethaf gyda'r dangosyddion ar gyfer Merched a Bechgyn yn cynyddu ym mhob pwnc. Mae'r bwlch rhwng Sir Gaerfyrddin a'r cyfartaledd Cenedlaethol yn y Gymraeg a'r Saesneg yn lleihau. Mewn Mathemateg a Gwyddoniaeth mae cyfartaledd yr ALl yn uwch na'r ffigurau Cenedlaethol am y tro cyntaf. Serch hynny cydnabyddwn bod gofyn gwella'n barhaus ac adeiladu ar arferion da ar hyn o bryd er mwyn dod â'r deilliannau ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 1 yn gyfartal â neu'n well na deilliannau disgyblion tebyg mewn awdurdodau eraill. Mae'r data yng **Nghyfnod Allweddol 2** yn rhoi darlun cymysglyd. Gwelir gwelliant cyson yn y Gymraeg ac i raddau llai mewn Mathemateg. Serch hynny mae gostyngiad yn y dangosydd ar gyfer Saesneg a Gwyddoniaeth. Hefyd nodwn bod y patrwm ar gyfer bechgyn ym mhob pwnc yn un o welliant. Fodd bynnag gwelir patrwm o ostyngiad yn achos Merched yn 2010. Mae dadansoddiad o batrwm Gwerth Ychwanegol dros 3 blynedd (gweler isod) yn awgrymu bod y cyrhaeddiad yn unol â'r hyn a amcangyfrifwyd yn Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth ond yn is na'r hyn a amcangyfrifwyd yn y Gymraeg. Yng **Nghyfnod Allweddol 3** gwelir cynnydd tebyg i'r hyn a geir yng Nghyfnod Allweddol 2 gyda chynnydd yn nifer y disgyblion sy'n cyflawni L5 yn y Gymraeg. Fodd bynnag nid yw'r un cynnydd yn amlwg mewn pynciau craidd eraill. Mae'r Bechgyn yn dangos gwelliant yn y Gymraeg, tra bod tystiolaeth o gynnydd ar gyfer Merched mewn Mathemateg. Mae'r dadansoddiad o batrwm Gwerth Ychwanegol dros gyfnod o 3 blynedd yn awgrymu bod cyrhaeddiad yn unol â'r hyn a ddisgwyliwyd yn Saesneg a Gwyddoniaeth. Fodd bynnag roedd yn is na'r hyn a amcangyfrifwyd yn y Gymraeg a Mathemateg. **Cyfnod Allweddol 4** Dros y pedair blynedd diwethaf mae % carfan Sir Gaerfyrddin sy'n cyflawni trothwy Lefel 1 a Lefel 2 wedi cynyddu ac mae'n uwch na'r ffigur Cenedlaethol. Dyma hefyd yw'r patrwm ar gyfer cymhariaeth Sgôr Pwyntiau Ehangach. Mae'r dangosyddion ar gyfer Merched a Bechgyn yn parhau'n uwch na'r ffigurau Cenedlaethol ers 2008. Mae'r data Gwerth Ychwanegol ar gyfer disgyblion o CA2 i CA4 yn gadarnhaol ar gyfer bron pob un o'r dangosyddion, mae'r Trothwy Lefel 1 a Lefel 2 yn dynodi Gwerth Ychwanegol Cadarnhaol Sylweddol. Mae hyn yn awgrymu bod y disgyblion yn gwneud cynnydd da iawn o CA2 drwyddo i CA4 ar sail cyrhaeddiad ar ddiwedd CA2. **Cyfnod Allweddol 5.** Mae'r canran o ddisgyblion sy'n cyflawni dangosydd L3 yn parhau'n uwch na'r ffigur cyfatebol Cenedlaethol. Mae'r Bechgyn a'r Merched yn parhau'n uwch na'r ffigurau cyfatebol Cenedlaethol. Mae'r Sgôr Pwyntiau Cyfartalog Cenedlaethol fymryn yn is na'r ffigurau Cenedlaethol.

Asesiadau a Deilliannau
Argymhellir bod ysgolion yn parhau i ddatblygu dyfarniadau cyson ar gyfer Asesiadau Athrawon ar ddiwedd y Cyfnod Allweddol. Bernir bod cymryd rhan mewn ymarferion Safoni a Chymedroli gyda chydweithwyr yn yr ysgol ac yn ehangach yn gwbl hanfodol. Bernir bod cysondeb mewn Asesiadau Athrawon a diwylliant o ddisgwyliadau uchel ar gyfer y disgyblion, a gwneud defnydd cyson o ddisgrifyddion lefelau a data, yn gwbl hanfodol er mwyn dod â deilliannau ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 1- 3 yn unol â neu'n well na deilliannau disgyblion tebyg mewn awdurdodau eraill.

Beth yw Gwerth Ychwanegol?
Mae gwerth ychwanegol yn dangos y cynnydd a wneir gan unigolyn neu grŵp o'i gymharu â'r cynnydd ar gyfartaledd a wneir gan ddisgyblion tebyg yn genedlaethol rhwng cyfnodau allweddol, h.y. y cynnydd cymharol y maent wedi'i wneud.

Mae gwybodaeth gwerth ychwanegol felly yn ychwanegu at ganlyniadau disgyblion mewn asesiadau Cwricwlwm Cenedlaethol neu arholiadau cyhoeddus drwy ddangos y gwelliant y maent wedi'i wneud yn y cyfnod cyn yr amser yr aseswyd hwy. Mae'n dangos a ydynt wedi gwella ar gyfartaledd yn fwy, neu'n llai, na'u cyfoedion dros yr un cyfnod. Mae sawl astudiaeth wedi cadarnhau mai cyn-gyrhaeddiad yw'r dangosydd gorau o ddigon o berfformiad disgybl yn y pen draw.

Bydd ysgolion yn defnyddio'r wybodaeth i asesu sut mae eu disgyblion yn perfformio o'i gymharu â disgyblion o gyrhaeddiad cychwynnol tebyg yn genedlaethol.

Adran 2:
Y Fframwaith Arferion Da, Cymorth a Her – Deilliannau Hunanwerthuso 2009-10

Deilliannau'r Fframwaith Arferion Da, Cymorth a Her yn 2009-10

Cefndir

Lluniwyd y 'Fframwaith Arferion Da, Cymorth a Her (FfADCaH) er mwyn (a) meithrin diwylliant o hunanwerthuso yn yr ysgolion drwy sefydlu fframwaith sicrhau ansawdd o fewn cyd-destun lleol, a (b) gwneud y sail dros ddarparu cymorth i ysgolion yn fwy eglur.

Bob blwyddyn academaidd ers hynny, mae'r FfADCaH wedi llywio'r trafodaethau proffesiynol blynyddol rhwng ysgolion a'u hymgynghorwyr cyswllt. Yn yr un modd â Fframwaith Arolygu Estyn ar gyfer Ysgolion, mae tair prif ran i'r FfADCaH, sef Safonau, Ansawdd yr Addysg, ac Arweinyddiaeth a Rheolaeth. Mae pob adran yn cynnwys pump neu saith isadran, pob un ohonynt â chyfres o ddatganiadau ar bob agwedd o fywyd ysgol, sydd yn gyson â'r fframwaith arolygu. Yr isadrannau hyn yw fel a ganlyn:

Safonau	Y Dysgwr, Cynnydd y Disgybl, Sgiliau Allweddol a Dwyieithrwydd, Dysgu Gydol Oes, Datblygiad Personol a Chymdeithasol, a Phresenoldeb
Ansawdd yr Addysg	Addysgu, Asesu, Cynllunio (Cwricwlwm), Profiadau Dysgu, Cynhwysiant, Gofal, Cymorth a Chyfarwyddyd, a Phartneriaethau.
Arweinyddiaeth a Rheolaeth	Arweinyddiaeth, Cynllunio Strategol, DPP (Datblygiad Proffesiynol Parhaus), Hunanwerthuso, Rheoli Adnoddau.

Byddai'r pennaeth, yn aml ar ôl cael trafodaethau mewnol gyda'i staff, ac weithiau yn dilyn trafodaethau gyda disgyblion a llywodraethwyr, yn cytuno gyda'r ymgynghorydd cyswllt pa ddatganiadau fyddai'n amlygu orau sefyllfa'r ysgol o ran continwwm y pedwar cam. Nodir un enghraifft isod o'r isadran ar Gynnydd Disgyblion:

Yr ysgol sy'n herio'i hunan	Yr ysgol sydd â rhai heriau pellach	Yr ysgol sydd angen cymorth ychwanegol i fynd i'r afael â rhai materion penodol	Yr ysgol sydd angen cymorth a chyfarwyddyd dwys.
Y disgyblion yn gwneud yn well na'r disgwyl ar sail perfformiad blaenorol cyfnod allweddol (CA).	Disgyblion yn perfformio yn ôl y disgwyl ar sail perfformiad blaenorol CA.	Perfformiad disgyblion yn aml yn isel mewn perthynas â pherfformiad blaenorol CA.	Disgyblion yn perfformio'n wael mewn perthynas â pherfformiad blaenorol CA.

Caiff deilliannau FfADCaH pob ysgol eu rhannu'n flynyddol gyda chadeirydd corff llywodraethol yr ysgol.

Mae'r dadansoddiad hwn yn seiliedig ar ganlyniadau a lenwyd o bob ysgol gynradd, ysgol arbennig ac ysgol uwchradd yn y Sir. Fel yn y blynyddoedd cynt, defnyddir y dadansoddiad a nodir yma i lywio'r graddau o gymorth ychwanegol a bennir i ysgolion unigol, ac i gynorthwyo gyda'r gwaith o ledaenu arferion da sy'n bod o fewn y sir. Mae'n bwysig nodi bod y ffigurau canran yn ddilys mewn gwirionedd yn y cyfnod cynradd, ond mae angen bod yn bwyllog wrth edrych ar ganrannau'r ysgolion uwchradd ac ysgolion arbennig gan fod y niferoedd yn llawer llai.

Safonau

Ysgolion Cynradd

Ysgolion sydd . . .	Y Dysgwr	Cynnydd Disgyblion	Sgiliau Allweddol a Dwyieithrwydd	Dysgu Gydol Oes	Datblygiad Personol a Chymdeithasol	Presenoldeb
yn herio'u hunain	34	29	28	44	70	26
â rhai heriau pellach	64	60	65	54	30	72
angen cymorth ychwanegol i fynd i'r afael â rhai materion penodol	1	11	7	3	0	2
angen cymorth a chyfarwyddyd dwys	1	0	0	0	0	0

Ysgolion Uwchradd ac Arbennig

Ysgolion sydd . . .	Y Dysgwr	Cynnydd Disgyblion	Sgiliau Allweddol a Dwyieithrwydd	Dysgu Gydol Oes	Datblygiad Personol a Chymdeithasol	Presenoldeb
yn herio'u hunain	43	50	29	50	57	7
â rhai heriau pellach	57	43	71	50	43	79
angen cymorth ychwanegol i fynd i'r afael â rhai materion penodol	0	7	0	0	0	14
angen cymorth a chyfarwyddyd dwys	0	0	0	0	0	0

Y Prif Gryfderau

- Ar y cyfan, mae'r rhan fwyaf o ddigon o'r ysgolion naill ai'n *herio'u hunain* neu'n rhai *sydd â rhai heriau pellach*.

- O'i gymharu â'r llynedd, roedd gwelliant amlwg yn y canran o ysgolion oedd *yn herio'u hunain* ym mhob agwedd o safonau, ac eithrio'r Dysgwr ar lefel cynradd oedd yn debyg i'r llynedd.

- Mae Datblygiad Personol a Chymdeithasol yn agwedd gadarnhaol iawn lle mae 70% o ysgolion cynradd a 57% o ysgolion uwchradd yn *herio'u hunain.*

- Mae rhyw 50% o ysgolion uwchradd *yn herio'u hunain* o ran Cynnydd Disgyblion a Dysgu Gydol Oes a 43% o ran y Dysgwr.

- Mewn ysgolion cynradd, mae 44% *yn herio'u hunain* o ran Dysgu Gydol Oes a 34% o ran y Dysgwr.

Y Prif Heriau

- Mae presenoldeb yn dal i fod yn her ar lefel uwchradd, lle mai ond 7% sydd *yn herio'u hunain* a 14% angen *cymorth ychwanegol*. Serch hynny gwelwyd gwelliant amlwg o'r llynedd – pan oedd 31% angen *cymorth ychwanegol*.

- Mae 11% o ysgolion cynradd angen *cymorth ychwanegol* o ran Cynnydd Disgyblion. Digwydd hyn fel arfer lle mae ysgolion yn cael eu hunain yn y chwartel isaf o'i gymharu ag ysgolion tebyg yn genedlaethol.

- Mae canran gweddol fechan o ysgolion cynradd (7%) angen *cymorth ychwanegol* gyda Sgiliau Allweddol a Dwyieithrwydd a chanran tebyg o ysgolion uwchradd angen *cymorth ychwanegol* o ran Cynnydd Disgyblion.

- Mae 1 ysgol gynradd angen *cymorth a chyfarwyddyd dwys* o ran y Dysgwr.

Ansawdd yr Addysg

Ysgolion Cynradd

Ysgolion sydd . . .	Addysgu	Asesu	Cynllunio	Profiadau Dysgu	Cynhwysiant	Gofal, Cymorth a Chyfarwyddyd	Partneriaethau
yn herio'u hunain	61	56	75	81	91	87	81
â rhai heriau pellach	38	43	23	19	9	13	18
angen cymorth ychwanegol i fynd i'r afael â rhai materion penodol	0	2	2	0	0	0	1
angen cymorth a chyfarwyddyd dwys	0	0	0	0	0	0	0

Ysgolion Uwchradd ac Arbennig

Ysgolion sydd. . .	Addysgu	Asesu	Cynllunio	Profiadau Dysgu	Cynhwysiant	Gofal, Cymorth a Chyfarwyddyd	Partneriaethau
yn herio'u hunain	57	57	50	71	93	71	93
â rhai heriau pellach	43	43	50	29	7	29	7
angen cymorth ychwanegol i fynd i'r afael â rhai materion penodol	0	0	0	0	0	0	0
angen cymorth a chyfarwyddyd dwys	0	0	0	0	0	0	0

Y Prif Gryfderau

- Mae'r mwyafrif o'r ysgolion cynradd, uwchradd ac arbennig yn *herio'u hunain* o ran pob agwedd o ansawdd yr addysg. Mae'r holl ysgolion uwchradd ac arbennig, a bron pob un o'r ysgolion cynradd, yn *herio'u hunain* neu'n *rhai sydd â heriau pellach* o ran ansawdd yr addysg.

- O'i gymharu â'r llynedd, roedd gwelliant amlwg yn y canran o ysgolion cynradd sy'n *herio'u hunain* ym mhob agwedd o ansawdd yr addysg. Gwelwyd cynnydd tebyg yn yr ysgolion uwchradd ac arbennig o ran Profiadau Dysgu a Phartneriaethau.

- Yn y cyfnod cynradd, mae canran eithriadol o uchel o ysgolion yn *herio'u hunain* o ran Cynhwysiant (91%), Gofal, Cymorth a Chyfarwyddyd (87%) a Phartneriaethau (81%) tra bod 75% yn gwneud hynny o ran Cynllunio.

- Ar lefel uwchradd ac arbennig, mae canran eithriadol o uchel o ysgolion yn *herio'u hunain* o ran Cynhwysiant (93%) a Phartneriaethau (93%). Hefyd mae rhyw 71% o ysgolion uwchradd ac arbennig yn gwneud hynny o ran Profiadau Dysgu a Gofal, Cymorth a Chyfarwyddyd.

Y Prif Heriau

- Mae rhywfaint bach o ostyngiad yn y canran o ysgolion uwchradd ac arbennig sy'n *herio'u hunain* o ran pump o'r saith agwedd.

- Mae canran fechan iawn o ysgolion cynradd angen cymorth ychwanegol gydag Asesu (2%), Cynllunio (2%) a Phartneriaethau (1%).

Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Ysgolion Cynradd

Ysgolion sydd. . .	Arweinyddiaeth	Cynllunio Strategol	DPP	Hunanwerthuso	Rheoli Adnoddau
yn herio'u hunain	79	81	75	58	76
â rhai heriau pellach	18	16	24	39	24
angen cymorth ychwanegol i fynd i'r afael â rhai materion penodol	3	3	1	3	0
angen cymorth a chyfarwyddyd dwys	0	0	0	0	0

Ysgolion Uwchradd ac Arbennig

Ysgolion sydd. . .	Arweinyddiaeth	Cynllunio Strategol	DPP	Hunanwerthuso	Rheoli Adnoddau
yn herio'u hunain	79	71	57	71	79
â rhai heriau pellach	14	21	43	29	21
angen cymorth ychwanegol i fynd i'r afael â rhai materion penodol	7	7	0	0	0
angen cymorth a chyfarwyddyd dwys	0	0	0	0	0

Y Prif Gryfderau

- Mae'r mwyafrif o ysgolion cynradd, arbennig ac uwchradd yn *herio'u hunain* o ran Arweinyddiaeth a Rheolaeth.

- O gymharu â'r llynedd, mae gwelliant amlwg yn y canran o ysgolion cynradd sy'n *herio'u hunain* ym mhob agwedd o Arweinyddiaeth. Rhywbeth yn debyg yw'r patrwm ar lefel uwchradd ac arbennig o ran Arweinyddiaeth, Hunanwerthuso a Rheoli Adnoddau.

- Mae canran uchel iawn o ysgolion cynradd yn *herio'u hunain* o ran Cynllunio Strategol (81%), Arweinyddiaeth (79%), Rheoli Adnoddau (76%) a DPP (75%).

- Ar lefel uwchradd ac arbennig, mae canran uchel iawn (79%) yn *herio'u hunain* o ran Arweinyddiaeth a Rheoli Adnoddau, tra bod 71% yn gwneud hynny o ran Cynllunio Strategol a Hunanwerthuso.

Y Prif Heriau

- Canran gweddol fach o ysgolion uwchradd ac arbennig (7%) sydd angen *cymorth ychwanegol* o ran Arweinyddiaeth a Chynllunio Strategol.

- Mae canran fach o ysgolion cynradd angen *cymorth ychwanegol* o ran Arweinyddiaeth (3%), Cynllunio Strategol (3%) a Hunanwerthuso (3%).

Crynodeb

Ar y cyfan felly, ymddengys mai cryfderau mwyaf ysgolion Sir Gaerfyrddin yw'r meysydd canlynol:

- **Cynhwysiant**, lle mae 93% o ysgolion uwchradd a 91% o ysgolion cynradd yn *herio'u hunain;*
- **Partneriaethau** lle mae 93% o ysgolion uwchradd ac 81% o ysgolion cynradd yn *herio'u hunain*;
- **Gofal, Cymorth a Chyfarwyddyd**, lle mae 87% o ysgolion cynradd yn *herio'u hunain*.
- **Profiadau Dysgu** a **Chynllunio Strategol** lle mae 81% o ysgolion cynradd yn *herio'u hunain*.

Lle mae ysgolion angen *cymorth ychwanegol* mae hynny fel arfer mewn perthynas â'r isod:

- **Presenoldeb** (14% o ysgolion uwchradd ac arbennig);
- **Cynnydd Disgyblion** (11% o ysgolion cynradd a 7% o ysgolion uwchradd ac arbennig)

- **Sgiliau Allweddol a Dwyieithrwydd** (7% o ysgolion cynradd);
- **Arweinyddiaeth** a **Chynllunio Strategol** (7% o ysgolion uwchradd ac arbennig).

Adran 3:
Deilliannau Arolygiadau Estyn 2009-10

Deilliannau Arolygiadau Estyn yn Sir Gaerfyrddin 2009-10

Yn y flwyddyn academaidd 2009-2010 cafodd wyth ar hugain o ysgolion eu harolygu yn Sir Gaerfyrddin, oedd yn cynnwys un ar hugain o ysgolion cynradd, pedair ysgol uwchradd, un ysgol arbennig a dwy uned cyfeirio disgyblion.

Math o Arolwg

- Cafodd 6 ysgol arolwg byr lle arolygwyd dim ond 7 cwestiwn allweddol (CwA).
- Cafodd 13 o ysgolion arolwg safonol lle arolygwyd 7 CwA a 6 phwnc.
- Cafodd 9 ysgol arolwg llawn lle arolygwyd 7 CwA a phob pwnc. (Mae ysgolion newydd ac ysgolion arbennig bob amser yn cael arolwg llawn.)

Wrth raddio ysgolion, defnyddiodd Estyn raddfa pum pwynt:

Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol

Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig

Gradd 3: Nodweddion da'n gorbwyso diffygion

Gradd 4: Rhai nodweddion da, ond diffygion mewn meysydd pwysig

Gradd 5: Llawer o ddiffygion pwysig

Y Deilliannau Arolygu ar gyfer Sir Gaerfyrddin yn 2009-10 (yn ôl Ysgol a Chwestiwn Allweddol)

	CwA1	CwA2	CwA3	CwA4	CwA5	CwA6	CwA7
UCD Tŷ Aalton	2	2	2	2	2	2	2
Bancyfelin	2	2	1	2	1	1	1
Bro Banw	2	1	1	1	1	1	1
Bro Myrddin	1	1	1	1	1	1	1
Bynea	2	2	2	1	2	2	1
Carreg Hirfaen	2	1	1	1	2	2	2
Carwe	3	2	1	2	2	2	2
Cwrt Henri	2	2	2	2	2	2	2
Dewi Sant	2	1	1	1	1	1	1
Ffair-fach	2	2	1	2	2	2	1
Glanymôr	3	3	2	2	3	3	2
Gwendraeth	3	2	2	1	3	3	2
Gymraeg Rhydaman	1	1	1	1	1	2	1
Heol Goffa	1	1	1	2	1	1	1
Llandeilo	3	3	2	1	2	3	2
Llan-gain	2	2	2	2	2	2	2
Plant Bach Llangennech	2	1	1	1	1	2	1
Llansteffan	2	2	2	2	2	2	2
Llanwrda	3	3	2	2	2	2	2
Maes y Morfa	2	2	2	1	2	2	2
Maesyryrfa	2	1	1	1	1	2	2

	CwA1	CwA2	CwA3	CwA4	CwA5	CwA6	CwA7
Parc-yr-hun	2	2	1	1	2	1	2
Pen-y-groes	2	1	1	1	1	1	1
Pont-iets	2	2	2	2	2	2	2
Pwll KS3 PRU	2	2	2	2	2	2	2
Tŷ-croes	1	1	1	2	2	2	2
Y Dderwen	1	1	1	1	1	1	1
Y Felin	3	3	2	2	2	3	2

Crynodeb o Ddeilliannau Arolygiadau 2009-10 (yn ôl Cwestiwn Allweddol)

Cwestiynau Allweddol		Graddfa				
		1	2	3	4	5
CwA1	Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni?	18%	61%	21%	-	-
CwA2	Pa mor effeithiol yw'r addysgu, yr hyfforddi a'r asesu?	40%	46%	14%	-	-
CwA3	Pa mor dda y mae'r profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?	54%	46%	-	-	-
CwA4	Pa mor dda yw'r gofal, y cyfarwyddyd a'r gefnogaeth i ddysgwyr?	50%	50%	-	-	-
CwA5	Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth strategol?	36%	57%	7%	-	-
CwA6	Pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau?	29%	57%	14%	-	-
CwA7	Pa mor effeithlon yw arweinwyr a rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau?	39%	61%	-	-	-

Sut mae'r ffigurau'n cymharu â'r llynedd a'r darlun dros Gymru Gyfan *?

	% Gafodd Radd 1 neu Radd 2						
	KQ1	**KQ2**	**KQ3**	**KQ4**	**KQ5**	**KQ6**	**KQ7**
Sir Gaerfyrddin 2009-10	79%	86%	100%	100%	93%	86%	100%
Sir Gaerfyrddin 2008-09	87%	100%	100%	91%	96%	74%	91%
Cynradd Cymru 2008-09	87%	91%	93%	97%	87%	78%	90%
Uwchradd Cymru 2008-09	72%	81%	75%	86%	72%	75%	80%

** Nid yw canrannau ysgolion ar draws Cymru yn 2009-10 ar gael hyd yn hyn.*

Sylwadau Cyffredinol

- Yn 2009-10, roedd pob ysgol yn Sir Gaerfyrddin wedi cael Gradd 1 neu 2 ar gyfer CwA3, 4 a 7.

- O'i gymharu â 2008-09, roedd y canran o ysgolion oedd yn cael Gradd 1 neu 2 yn Sir Gaerfyrddin wedi cynyddu eleni mewn perthynas â CwA4 (+9%), CwA6 (+12%) a CwA7 (+9%), tra bod 100% wedi llwyddo am yr ail flwyddyn yn olynol yn CwA3. Roedd y canran gafodd Radd 1 neu 2 wedi gostwng yn CwA1 (-8%) a CwA2 (-14%) ac wedi gostwng o fymryn yn CwA5 (-3%).

- Roedd cynnydd sylweddol yn y canran o ysgolion oedd yn cael Gradd 1 yn Sir Gaerfyrddin ym mhob un o'r Cwestiynau Allweddol eleni. Roedd y cynnydd mwyaf (ers 2008-09) mewn perthynas â CwA2 (+18%) a CwA7 (+13%).

- Roedd rhai perfformiadau eithriadol yn 2009-10:

  - Cafodd dwy ysgol Radd 1 ym mhob un o'r saith CwA;

  - Cafodd pump ysgol Radd 1 mewn chwech o'r saith CwA;

  - Cafodd un ysgol bump Gradd 1 a chafodd dwy ysgol bedair Gradd 1.

- Am yr ail flwyddyn yn olynol, nid oedd unrhyw ysgol yn Sir Gaerfyrddin wedi cael llai na Gradd 3 mewn unrhyw gwestiwn allweddol.

Safonau Cyrhaeddiad fesul gwers (mewn ysgolion cynradd gafodd arolygiadau llawn neu safonol)

- Yn ysgolion cynradd Sir Gaerfyrddin yn 2009-10, gwelwyd bod 12% o'r gwersi a arsylwyd gan yr arolygwyr yn 'wersi da gyda nodweddion rhagorol' (Gradd 1). Roedd hyn fymryn yn uwch na'r 11% gafodd Radd 1 yn 2008-09. Roedd yr 84% o wersi oedd o leiaf yn 'dda' (Gradd 1 neu 2) yn 2009-10 hefyd yn cymharu'n dda â'r 79% a lwyddodd i gyrraedd y radd hon y llynedd.

- Mae'r adroddiad diweddaraf gan Brif Arolygwr Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru yn dangos bod 12% o wersi a arsylwyd yn ysgolion cynradd ar draws Cymru yn 2008-09 wedi cael Gradd 1 (yr un peth â Sir Gaerfyrddin eleni). Yn genedlaethol, roedd 85% o wersi 'yn dda' neu'n well y llynedd: fymryn yn uwch na Sir Gaerfyrddin yn 2009-10.

Ansawdd yr Addysgu fesul gwers (ym mhob ysgol gynradd a arolygwyd)

- Gwelwyd bod ansawdd yr addysgu 'yn dda gyda nodweddion rhagorol' mewn 24% o'r gwersi a arsylwyd gan arolygwyr yn ysgolion cynradd Sir Gaerfyrddin yn 2009-10. Roedd hyn yn cymharu'n ffafriol iawn â'r 18% a gafodd y radd honno yn 2008-09. Yn 2009-10, graddiwyd yr addysgu mewn 89% o'r gwersi o leiaf 'yn dda' o'i gymharu ag 86% yn 2008-09.

- Mae adroddiad diweddaraf Prif Arolygwr Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru (2008-09) yn dangos bod 22% o'r gwersi a arsylwyd ar draws Cymru wedi cael Gradd 1 (fymryn yn is na Sir Gaerfyrddin) a chafodd 91% o'r gwersi Radd 2 o leiaf (ychydig yn uwch na Sir Gaerfyrddin).

Argymhellion Cyffredin

Ym mhob adroddiad arolwg ysgol, mae Estyn yn gwneud cyfres o argymhellion i'r ysgol, yn seiliedig ar ei ganfyddiadau. Yn 2009-10, y materion oedd yn ymddangos amlaf ymhlith yr argymhellion oedd y canlynol:

Safonau

- Mewn bron i hanner yr ysgolion (46%), roedd gwendidau yn y sgil allweddol o ysgrifennu.

- Lle arolygwyd Cymraeg fel pwnc, rhoddwyd Gradd 3 i fwy nag un rhan o dair o ysgolion (36%). Rhywbeth yn debyg oedd y canrannau p'un ai oedd y Gymraeg yn cael ei haddysgu fel iaith 1af neu fel 2ail iaith. Fodd bynnag, gwelwyd bod y mwyafrif o'r gwendidau yng Nghyfnod Allweddol 2 lle rhoddwyd Gradd 3 mewn 50% o ysgolion 2ail iaith a 42% o ysgolion iaith 1af. O'r 42 o raddau a roddwyd am Gymraeg yn Sir Gaerfyrddin, dim ond un ysgol gafodd Radd 1.

- Mewn bron i un rhan o dair o ysgolion (29%) roedd presenoldeb yn fater i dynnu sylw ato.

- Mewn bron i un rhan o bump o ysgolion (18%) roedd sgiliau dwyieithog disgyblion yn fater i dynnu sylw ato.

- Mewn tair neu fwy o ysgolion (11-14%), roedd yr argymhellion yn cynnwys un neu fwy nag un o'r pynciau neu sgiliau allweddol canlynol:
  - siarad;
  - rhifedd;
  - technoleg gwybodaeth a chyfathrebu;
  - Saesneg;

- addysg gorfforol

Ansawdd yr Addysg

- Mewn ychydig yn fwy na phumed ran o ysgolion (21%), barnai'r arolygwyr y dylai'r disgyblion fod â mwy o ran mewn asesu eu cynnydd eu hunain.

- Mewn ychydig yn llai na phumed ran o ysgolion (18%), clustnodwyd bod olrhain cynnydd neu fonitro cynnydd disgyblion yn fater i'w ddatblygu.

- Mewn tair neu fwy o ysgolion, clustnododd yr arolygwyr bod angen i ysgolion ac athrawon:

  - wahaniaethu'n fwy priodol ar gyfer yr amrediad oedran a gallu o fewn y dosbarth;

  - datblygu ymhellach y strategaethau asesu ar gyfer dysgu;

  - gwella ansawdd marcio gwaith disgyblion; neu

  - wella'r cymorth i ddisgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.

Arweinyddiaeth a Rheoli

- Gwelwyd bod diffygion o ran yr adeiladau mewn chwarter o'r ysgolion (25%).

- Mewn tair neu fwy o ysgolion (11-14%), clustnododd yr arolygwyr bod angen:

  - i gyrff llywodraethol gryfhau eu rôl mewn monitro ansawdd y ddarpariaeth a safonau cyrhaeddiad;

  - i hunanwerthuso roi mwy o bwyslais ar fonitro safonau cyrhaeddiad;

  - i arweinyddion / cydgysylltwyr pwnc fonitro eu pynciau yn fwy trylwyr.

- Er mai bach iawn oedd nifer yr ysgolion uwchradd a arolygwyd, gwnaed nifer o gyfeiriadau at yr angen am gryfhau rôl y grŵp o arweinyddion.

Adran 4:
Datblygu gwerthoedd a sgiliau ar gyfer dysgu gydol oes

Mae ysgolion yn llefydd lle bydd dysgwyr yn datblygu gwerthoedd a sgiliau pwysig. Yn y byd hwn sy'n prysur newid, mae'r priodweddau cadarnhaol hyn yn hanfodol ac yn aml iawn nid yw llwyddiannau o fewn yr ysgolion yn cael eu hamlygu mor rheolaidd â chyrhaeddiad a chyflawniad. Yn yr adran hon dathlwn yr amryfal lwyddiannau a chyflawniadau yn yr ysgolion sydd yr un mor bwysig â'r agweddau mwy traddodiadol y sonnir amdanynt fel rheol. Mae nifer o gyfleoedd mewn ysgolion i ddatblygu dysgwyr gydol oes sydd ag amryw o sgiliau. Rhestrir llawer o'r rhain yn yr adrannau canlynol.

- Celf a Dyllunio
- Mynd i'r afael ag Effaith Anfantais ar Gyrhaeddiad Disgyblion
- Cyfnod Sylfaen
- Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu Dysgu drwy ddyfeisiau-llaw
- Menter Treftadaeth Cymru i Ysgolion
- Eco Sgolion
- Masnach Deg
- Enillwyr Gohebwyr Ifanc dros yr Amgylchedd
- Prosiect Llythrennedd Sir Gaerfyrddin
- Partneriaethau Ysgolion Rhyngwladol a Dinasyddiaeth Fyd-eang yn Ysgolion Sir Gaerfyrddin
- Ysgolion Bro
- Y Prosiect Addysg Gorfforol a Chwaraeon Ysgol (PESS)
- Datblygiad Arweinyddiaeth Ysgol
- Gwaith y Corff Llywodraethol
- Gwasanaeth Cefnogi Cyfathrebu Sir Gaerfyrddin
- Her F1
- Y Gwasanaeth Cyrhaeddiad Lleiafrifoedd Ethnig a Theithwyr (METAS)
- Gwasanaeth Cwnsela mewn Ysgolion
- Fforymau Cydgysylltwyr AAA yn Sir Gaerfyrddin
- Gwasanaeth Cerdd Sir Gaerfyrddin
- Gweithgareddau'r Urdd
- Cynlluniau Ysgolion Iach - Rhwydwaith Cymru
- Sgiliau Allweddol yn Sir Gaerfyrddin
- Ystadegau Gwobrau Dug Caeredin
- Llythrennedd a Chwarae/Rhifedd a Chwarae
- Gweithgareddau'r Cyngor Llyfrau Cymraeg

Celf a Dylunio

Gwobr Joseph Herman

Bob blwyddyn mewn partneriaeth ag ysgol o Abertawe, Ceredigion a Chastell-nedd a Phort Talbot mae ysgol o Sir Gaerfyrddin yn cael gwahoddiad i gymryd rhan yng Ngwobr Joseph Herman. Eleni bu Ysgol y Bedol yn cymryd rhan. Bu disgyblion Blwyddyn 5 yn gweithio gyda'r arlunydd tecstilau Becky Adams ac yn ymweld â'r Big Pit, y wlad o gwmpas Ystradgynlais a hefyd yn gweithio gyda'r arlunydd yn eu hysgol. Nod y prosiect oedd cael y disgyblion i uniaethu â'r dirwedd ddiwydiannol lofaol oedd wedi ysbrydoli Joseph Herman a chreu arlunwaith a ddylanwadwyd gan hyn dan gyfarwyddyd a'r ysbrydoliaeth o weithio gydag arlunydd proffesiynol. Cafodd y gwaith gorffenedig ei arddangos yn Neuadd Lesiant Ystradgynlais, gwaith oedd yn wirioneddol ysblennydd. Roedd cyfoeth yr iaith a ddatblygwyd a'r sgiliau creadigol a datrys problemau a amlygwyd mewn prosiect o'r fath, yn amlwg i bawb yn ogystal â dealltwriaeth ddyfnach y disgyblion o'r Cwricwlwm Cymraeg.

Grant Ysgolion Bach – prosiect celf:

Enghraifft o'r prosiect grant ysgolion bach a gynhaliwyd yn ddiweddar oedd yr artist Charlotte Leadbetter yn gweithio gyda disgyblion Ysgol Abergwili i greu mosaig hyfryd ar wal sy'n darlunio hanes a thirwedd yr ardal o gwmpas yr ysgol.
Roedd pob un o'r disgyblion wedi cael boddhad o gymryd rhan yn y prosiect ac wedi elwa o greu darn o gelf ar y cyd mor ddiddorol a hir hoedlog. Mae prosiectau fel hyn yn amlygu pa mor werthfawr yw gweithio mewn grŵp, datrys problemau, gwaith ymchwilio, datblygu sgiliau meddwl a gweithio o fewn cyd-destun go iawn.

Effaith Leonardo

Mae'r Effaith Leonardo yn mynd o nerth i nerth yn ysgol Gynradd Teilo Sant ac Ysgol Gynradd Trimsaran. Dull arloesol a chroes-gwricwlaidd yw hwn o gyflwyno'r cwricwlwm - drwy ganolbwyntio ar wyddoniaeth a chelf. Hefyd mae ysgolion eraill yn dilyn model tebyg o ddysgu, ac mae pawb sy'n rhan o'r gweithgareddau hyn yn sôn fel mae'r cynllun yn ennyn mwy o gyfranogiad gan y disgyblion, yn enwedig y bechgyn. Hefyd mae gan rieni mwy o ymwybyddiaeth o'r hyn a ddysgir yn y dosbarth ac mae'r rhieni yn cyfrannu mwy. Mae sgiliau cyfathrebu a sgiliau meddwl y disgyblion ac yn aml iawn eu sgiliau TGCh yn datblygu'n fawr drwy'r dull hwn o ddysgu. Felly hefyd eu gallu a'r cyfle sydd ganddynt i ddysgu'n annibynnol a dilyn llwybrau sydd o ddiddordeb uniongyrchol iddynt hwy.

Oriel Myrddin

Diolch i nawdd gan 'Brosiect Orielau ac Addysg' Ymddiriedolaeth y Tywysog mae disgyblion o Tŷ Alton wedi bod yn gweithio gyda'r artist Julia Griffith Jones, swyddog addysg Amgueddfa Wlân Cymru a swyddog addysg Oriel Myrddin ar y cyd â'r arddangosfa syfrdanol Ystof ac Anwe yn Oriel Myrddin.

Coleg Sir Gâr

Mae myfyrwyr cwrs sylfaen a chwrs gradd o gyfadran Celf a Dylunio, Coleg Sir Gâr, wedi bod yn gweithio mewn partneriaeth â'r Awdurdod Lleol (ALl) a'r cyfleusterau CAD/CAM i arbrofi a datblygu ffyrdd newydd ac arloesol o ddatblygu gwrthrychau 3D. Maent wedi cyflwyno syniadau newydd a ffyrdd newydd o weithio ac wedi mynd â'r defnydd a wneir o'r uwch dechnolegau hyn i gyfeiriadau newydd. Roedd y myfyrwyr yn gallu defnyddio'r technolegau a'r cyfleusterau hyn i gyfoethogi eu portffolio o waith sylfaen a gradd, ac roedd y canlyniadau terfynol i'w gweld yn eu sioeau gradd a diwedd cwrs.

Mynd i'r afael ag Effaith Anfantais ar Gyrhaeddiad Disgyblion

Mae'r Teulu o Ysgolion Bryngwyn, Coedcae a Glan y Môr wedi cymryd rhan ym Mlwyddyn 4 o'r fenter RHAGORI. Yn ystod y tair blynedd gyntaf o'r fenter, canolbwyntiwyd ar gynorthwyo disgyblion mewn ysgolion unigol. Fodd bynnag yn ystod y bedwaredd flwyddyn roedd y ffocws ar weithio drwy gydweithredu ac ar ddatblygu adnoddau y gellir eu rhannu ag ysgolion eraill ar hyd a lled Cymru. Roedd yr ysgolion o fewn teuluoedd Bryngwyn a Choedcae wedi canolbwyntio ar ddatblygu arferion ac adnoddau i gynorthwyo lles emosiynol disgyblion difreintiedig tra bod Glan y Môr wedi canolbwyntio ar ddatblygu dulliau sy'n canolbwyntio ar y gymuned i godi dyheadau disgyblion difreintiedig yn enwedig y rhai oedd mewn perygl o ymddieithrio adeg trosglwyddo o Gyfnod Allweddol 2 i Gyfnod Allweddol 3.

Bu'r tri teulu o ysgolion yn rhannu eu profiadau yn ystod cynhadledd ranbarthol ar ledaenu gwybodaeth a gynhaliwyd ym Mharc y Scarlets. Rhoddwyd copïau o'r adnoddau oedd wedi'u datblygu ar draws consortiwm De Orllewin a Chanolbarth Cymru i'r cynrychiolwyr oedd wedi'u henwebu i fynychu'r gynhadledd ar ran eu teuluoedd o ysgolion. Gellir cael copïau o'r holl adnoddau a gynhyrchwyd gan gonsortiwm De Orllewin a Chanolbarth Cymru a chonsortia eraill ar draws Cymru ar wefan genedlaethol RHAGORI yn:- www.raise-wales.org.uk

Y Cyfnod Sylfaen

Yn ystod y flwyddyn daeth yn ofynnol yn ôl y gyfraith i gyflwyno'r Fframwaith Cyfnod Sylfaen i bob plentyn yng Nghymru o dair i chwech oed. Yn 2010-2011 bydd hynny'n statudol i bob plentyn hyd at saith oed.

Lleoliadau Nas Cynhelir

Yn ystod y flwyddyn mae'r tîm wedi rhoi cymorth i chwe deg tri o leoliadau nas cynhelir lle mae pedwar cant ar gyfartaledd o ddisgyblion yn mynychu'r lleoliadau hyn bob tymor. Cafodd naw o'r lleoliadau hyn arolwg yn ystod y flwyddyn. Yn arbennig o lwyddiannus oedd Cylch Meithrin Llansawel lle rhoddodd yr arolygwyr Radd 1 am bob un o'r meysydd a arolygwyd.

Yn ystod tymor yr haf cyflwynwyd dogfen drosglwyddo newydd i bob lleoliad nas cynhelir sy'n cyflawni darpariaeth ddysgu ar ran yr Awdurdod Lleol. Cafodd pob aelod o staff hyfforddiant mewn llenwi'r ddogfen a drosglwyddir i'r ysgol pan fydd y plentyn yn trosglwyddo allan o'r lleoliad nas cynhelir. Nod y ddogfen drosglwyddo yw hyrwyddo parhad a dilyniant o ran dysg y plant a meithrin partneriaeth rhwng lleoliadau nas cynhelir a'u hysgolion cynradd partner.

Hyfforddiant

Mae aelodau'r Tîm Cyfnod Sylfaen wedi cyflwyno amrediad eang o hyfforddiant ar gyfer ysgolion a lleoliadau nas cynhelir. Mae'r hyfforddiant sydd wedi'i gyflwyno wedi canolbwyntio ar ddysgu mewn amgylchedd dysgu yn yr awyr agored, yn diwallu anghenion plant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn y Cyfnod Sylfaen a datblygu sgiliau darllen. Rhoddwyd hyfforddiant i athrawon Blwyddyn 1 oedd yn paratoi ar gyfer cyflwyno'r Fframwaith Cyfnod Sylfaen fis Medi, ac roedd hyfforddiant ar gyfer aelodau o staff oedd yn newydd i addysgeg ac arferion y Cyfnod Sylfaen. Hefyd bu'r tîm Cyfnod Sylfaen yn gweithio mewn partneriaeth ag aelodau o'r tîm PESS er mwyn cyflwyno'r rhaglen hyfforddiant Chwarae i Ddysgu ym mhob ysgol yn Sir Gaerfyrddin.

Cynadleddau

Bu athrawon o Sir Gaerfyrddin yn cymryd rhan yn y Gynhadledd ar Asesu Cenedlaethol oedd yn canolbwyntio ar bwysigrwydd datblygu strategaethau effeithiol fel rhan o'r cylch addysgu a dysgu.

Hefyd roedd y tîm Cyfnod Sylfaen wedi cyflwyno gweithdy yn y Gynhadledd ar Addysg Cyfrwng Cymraeg oedd yn gyfle i ymchwilio i'r defnydd effeithiol o'r Gymraeg fel cyfrwng cyfathrebu yn y Cyfnod Sylfaen.

Offeryn Asesu Plant

Yn ystod y flwyddyn, bu nifer o ysgolion a lleoliadau nas cynhelir yn treialu'r Offeryn Asesu Plant a ddatblygir ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru gan Brifysgol Lerpwl. Cynhaliwyd rhan gyntaf y treialu yn ystod Tymor yr Hydref, a dilynodd yr ail gyfnod yn ystod wythnosau cyntaf Tymor yr Haf. Treialwyd yr Offeryn Asesu Plant yn Llandeilo, Gors-las, Hen Heol, Pontyberem, Saron, Teilo Sant, Tre Ioan, Ysgol Feithrin Rhydaman, Carreg Hirfaen a Heol Goffa. Hefyd treialwyd yr offeryn yng Nghylch Meithrin Bro Elfed, Cylch Meithrin Hendy, Cylch Meithrin Pontyberem, Little Learners Nursery, Brambles Day Nursery, Cae'r Ffair Day Nursery, Cylch Meithrin Llanddarog a Gofal Dydd yr Ysgoldy. Rydym yn ddiolchgar am eu cymorth hael a'u cydweithrediad yn delio â'r holl sialensiau a wynebwyd ganddynt yn ystod y rhaglen beilot ac am eu holl adborth a drosglwyddwyd i'r ymchwilwyr sy'n datblygu'r offeryn asesu.

Technoleg Gwybodaeth a Cygathrebu Dysgu drwy ddyfeisiau-llaw

Mae technoleg yn y dosbarth yn newid yn gyflym. Cyfrifiaduron pen-desg traddodiadol yw'r mwyafrif o gyfarpar TG yn ein hysgolion o hyd, ond yn ystod y misoedd diwethaf hyn gwelwyd mwy a mwy o'r technolegau newydd, gan gynnwys gliniaduron, gwe-lyfrau, iPodau ac yn fwyaf diweddar, yr iPad.
Y farn gyffredin yw bod angen i dechnoleg fynd at y dysgwr yn hytrach na'r patrwm traddodiadol o'r dysgwr yn mynd at y dechnoleg. Mae hyn wedi'i hwyluso drwy ddefnyddio technoleg wi-fi a defnyddio dyfeisiadau yn y llaw yn ein dosbarthiadau.
Er mwyn helpu i werthuso manteision ac anfanteision o ddefnyddio'r math hwn o dechnoleg, mae set o iPodau ac iPadiau wedi'u rhoi ar fenthyg i nifer o ysgolion ar draws Sir Gaerfyrddin yn ystod tymor yr Hydref.
Mae ugain o iPod Touches a gorsaf ddocio wedi'u defnyddio yn Ysgol Bro Myrddin am y rhan fwyaf o'r tymor hwn.
Roedd chwech iPod Touches a phedwar iPad wedi bod ar gael i Ysgolion Cynradd ac maent wedi bod yn hynod boblogaidd. Gan eu bod mor boblogaidd, mae cyfnod benthyg y dyfeisiadau hyn yn yr ysgolion wedi'i gyfyngu i wythnos er mwyn i gynifer o ysgolion â phosibl gael y cyfle i ddefnyddio'r dechnoleg hon. Mae hyn yn rhoi profiad ymarferol i ysgolion dreialu'r dechnoleg hon cyn mynd ati i brynu.



Dyma rywfaint o'r adborth gan ysgolion cynradd sydd wedi defnyddio'r dyfeisiau-llaw hyn y tymor hwn:

- Mae'r disgyblion yn hyderus ac mae ganddynt ymagwedd gadarnhaol at ddefnyddio'r dyfeisiau hyn
- Mae'r offer yn hawdd ei ddefnyddio yn y dosbarth
- Roedd y disgyblion yn ymgyfarwyddo â'r dechnoleg mewn dim o amser – yn hawdd i'w ddeall
- Roedd y disgyblion yn gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol ac o'r herwydd roedd eu sgiliau cyfathrebu yn datblygu

- Gallai'r disgyblion rannu'r sgiliau hyn yn hawdd gyda'r disgyblion ifancach o fewn yr ysgol
- Roedd yn offer yn ddefnyddiol iawn wrth wneud ymchwil ar y we gan y gallai'r disgyblion droi atynt yn hawdd tra'n eistedd wrth eu desgiau
- Drwy ddefnyddio Apps penodol, roeddem yn ategu llythrennedd a rhifedd y disgyblion
- Roedd y disgyblion yn gallu cyflwyno data ar ffurf graffiau a pharatoi amrywiol gyflwyniadau
- Roedd y disgyblion yn hapus i weithio ar y dyfeisiau hyn yn annibynnol ac roeddent yn teimlo perchnogaeth o'u gwaith
- Tueddai'r disgyblion ifancach ddefnyddio'r Apps parod, ond roedd y disgyblion hŷn yn eu defnyddio ar gyfer gwaith ymchwil.



Menter Treftadaeth Cymru i Ysgolion

Bob blwyddyn mae Menter Treftadaeth Cymru i Ysgolion yn gwahodd ysgolion ar hyd a lled Cymru i ymgymryd â phrosiectau treftadaeth a'u cyflwyno i gystadleuaeth treftadaeth genedlaethol.

Bu eleni unwaith yn rhagor yn flwyddyn lwyddiannus iawn i ysgolion Sir Gaerfyrddin gan i chwe ysgol ennill gwobr.

Ysgol Llan-non – Cyfnod o hanes Cymru sy'n ymwneud â'u pentref

Ysgol y Castell - Creu gêmau o hanes Cymru

Ysgol Gwynfryn – Hanes Rheilffyrdd y Cymoedd

Ysgol Teilo Sant – Pili Pala – Yr hen Ysgol Genedlaethol

Ysgol Pen-boyr - Cofio T Lew Jones

Ysgol Hen Heol – Addysg Oes Victoria

Eco Sgolion

Mae 128 o ysgolion yn y sir wedi'u cofrestru ar y rhaglen Eco Sgolion. Ddiwedd mis Medi 2010 roedd 112 o faneri gwyrdd Eco Sgolion wedi'u gwobrwyo i ysgolion yn Sir Gaerfyrddin.

Mae dwy ysgol, Ysgol Saron ac Ysgol Feithrin Rhydaman wedi derbyn y wobr platinwm sy'n cydnabod ysgolion sydd wedi bod yn perfformio i safon y faner werdd am dros wyth mlynedd.

Bydd y fframwaith arolygu newydd sy'n amlygu pwysigrwydd Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang (ADCDF) fel rhan o'r Profiad Dysgu yn hyrwyddo pwysigrwydd y rhaglen Eco Sgolion ym mywyd ein hysgolion.

Cymru Masnach Deg
Fair Trade Wales

Masnach Deg

Ysgol Dyffryn Taf ac Ysgol Gynradd Llanddarog yw'r ysgolion cyntaf yn Sir Gaerfyrddin i dderbyn y Faner Masnach Deg newydd ar ôl ennill Achrediad Masnach Deg.

Cyflwyno'r faner Masnach Deg i Ysgol Dyffryn Taf

I ddod yn Ysgol Masnach Deg rhaid bodloni 5 nod

- Sefydlu Grŵp Llywio Ysgol Masnach Deg (lle mae o leiaf hanner y grŵp yn ddisgyblion) sy'n cyfarfod o leiaf unwaith y tymor.

- Ysgrifennu a mabwysiadu Polisi Masnach Deg sydd wedi derbyn cefnogaeth y Bwrdd Llywodraethwyr ac sydd wedi'i lofnodi gan y Pennaeth.
- Defnyddio a gwerthu cynnyrch Masnach De gymaint â phosibl.
- Dysgu am Fasnach Deg mewn o leiaf dri phwnc mewn grwpiau dwy flwyddyn.
- Gweithredu dros Fasnach Deg o leiaf unwaith y tymor yn yr ysgol ac unwaith y flwyddyn yn y gymuned.

Ar hyn o bryd mae 27 o ysgolion yn Sir Gaerfyrddin wedi'u cofrestru ar y rhaglen Masnach Deg. Am ragor o wybodaeth am Fasnach De ymwelwch â'r tudalennau Masnach Deg ar Amdro
http://intranet.ysgolccc.org.uk/eng/Learning/County_Initiatives/Fair_Trade/

Ysgol Glanymôr – Enillwyr Gohebwyr Ifanc dros yr Amgylchedd

Rhaglen yr Undeb Ewropeaidd yw Gohebwyr Ifanc dros yr Amgylchedd ar gyfer disgyblion ysgolion uwchradd. Mae pob grŵp yn canolbwyntio ar fater amgylcheddol lleol. Mae'r disgyblion yn gwneud ymchwiliad am fater amgylcheddol lleol. Eleni derbyniwyd cyflwyniadau gan fwy nag 20 gwlad.

Bu Ysgol Glanymôr yn ymchwilio i effaith yr ŵyl Beach Break Live ar Barc Gwledig Pen-bre. Cafodd y digwyddiad sylw gyntaf ar raglen Dragon's Den yn 2008. Heidiodd dros 17,500 o fyfyrwyr i Ben-bre eleni am bedwar diwrnod o ddathlu diwedd arholiadau drwy fwynhau cerddoriaeth.

Bu'r disgyblion yn yr ysgol yn ymchwilio i effaith ariannol ac amgylcheddol yr ŵyl Beach Break Live. Enillodd eu cyflwyniad y wobr gyntaf ar lefel Cymru gan fynd ymlaen i gynrychioli Cymru ar lefel ryngwladol lle llwyddwyd i ddod ar y brig yn y Wobr Bioamrywiaeth Ryngwladol.

Prosiect Llythrennedd Sir Gaerfyrddin

Mae Prosiect Llythrennedd Sir Gaerfyrddin wedi tyfu fel caseg eira o ddechreuadau bach i ymgyrch anferth gan yr ALl o ysgogi a galluogi ysgolion ar draws Sir Gaerfyrddin i weithredu dull ysgol gyfan o addysgu darllen a sillafu yn systematig drwy ffoneg synthetig. Eginodd y syniad yn y grŵp Dyslecsia sydd bellach wedi esblygu yn grŵp Dyslecsia/Llythrennedd. Mae'r grŵp hwn yn cynnwys 12 aelod sydd â diddordeb ac arbenigedd mewn llythrennedd ac sy'n cynnwys cynrychiolwyr o Llywodraethu a Chynhwysiant, Gwasanaethau Plant, Gwella Ysgolion ac ysgolion. Mae'r grŵp hwn wedi bod yn weithredol bellach ers dwy flynedd.

Un o'r penderfyniadau cyntaf i'w wneud oedd cytuno ar ddiffiniad o Ddyslecsia. Ar ôl llawer o drafod cytunwyd gan bawb mai diffiniad Cymdeithas Seicolegol Prydain oedd y mwyaf priodol. Mae hwn yn diffinio dyslecsia fel anhawster parhaus i ddysgu darllen a/neu sillafu er gwaethaf "y dulliau addysgu arferol". Cymerwyd bod hyn yn cynnwys addysgu da ac ymyriadau da. Mewn geiriau eraill, i blentyn gael ei asesu yn blentyn "dyslecsig" roedd angen hanes am y modd yr oedd anawsterau'r plentyn wedi'u hasesu, yn ogystal â pha ddulliau addysgu ac ymyriad a ddefnyddiwyd a'r modd yr oedd y rhain wedi'u tracio a'u monitro.

Daeth yn amlwg yn fuan bod hyn yn mynd i olygu goblygiadau pellgyrhaeddol o ran arferion yn yr ysgolion. Roedd angen i ni ddarganfod yn y lle cyntaf bod addysgu darllen a sillafu wedi bod yn dda. Mewn geiriau eraill roeddem yn edrych i weld bod yr addysgu wedi bod yn systematig, yn gyson, yn drwyadl ac yn symud ymlaen gam wrth gam sy'n briodol i'r plentyn. Roedd angen i ni wirio bod ein hathrawon wedi cael yr hyfforddiant a'r offer i fod yn athrawon llythrennedd "arbenigol" i bob plentyn.
Yn fuan iawn gwnaed asesiad ymarferol syml i ymchwilio i sgiliau llythrennedd a chyn-lythrennedd disgyblion ag anawsterau. Drwy hyn roedd yn hawdd gweld yn fwy clir union natur anawsterau disgybl ac a oedd yr anawsterau yn ganlyniad addysgu oedd wedi methu canfod yr anawsterau neu anawsterau prosesu mwy cymhleth, neu yn wir y ddau. Hefyd manteisiwyd ar Lythrennau a Synau (Strategaeth Llythrennedd Genedlaethol Saesneg) fel cyfrwng i ddatblygu dulliau ysgol gyfan o addysgu ffoneg synthetig ar lefel briodol yn natblygiad y plentyn, ac astudiwyd dulliau ardderchog Ruth Miskin 'Read Write Inc' o addysgu ffoneg synthetig.

Ers hynny mae pethau wedi datblygu'n gyflym. Mae ein hysgolion wedi bod yn frwdfrydig i fanteisio ar y cyfleoedd niferus a gynigir ar gyfer hyfforddiant llythrennedd drwy gyfrwng y Saesneg a'r Gymraeg. I sicrhau bod y deunydd ar gael yn y ddwy iaith, rydym bellach wedi datblygu deunyddiau ar gyfer asesu ac addysgu ysgol gyfan yn ogystal ag ymyriadau unigol yn y Gymraeg. Yn seiliedig ar 'Letters and Sounds' y deunydd Cymraeg cyfatebol yw "Llythrennau a Synau". Mae rhyw 30 o ysgolion yn defnyddio'r dulliau hyn, naill ai Read Write Inc. neu Llythrennau a Synau (Saesneg a Chymraeg) ar lefel ysgol gyfan, ac mae llawer mwy o ysgolion yn defnyddio'r dulliau hyn, er mewn modd mwy cyfyngedig, yn eu dosbarthiadau. Mae'r ymgyrch yn mynd o nerth i nerth.

Mae'r canlyniadau cychwynnol yn hynod gadarnhaol o ran *pob* disgybl. Mae plant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn ogystal â disgyblion mwy abl a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol i gyd yn gwneud cynnydd amlwg. Mae'r ysgolion

yn llawn cyffro a chymhelliant. Barnwn mai gweithio cydlynus drwy gydweithredu ar draws yr awdurdod sydd wedi sbarduno'r brwdfrydedd a'r llwyddiant hwn.

Partneriaethau Ysgolion Rhyngwladol a Dinasyddiaeth Fyd-eang yn Ysgolion Sir Gaerfyrddin

Am y tro cyntaf eleni cafwyd llwyddiant 100% mewn cynorthwyo ysgolion Sir Gaerfyrddin gyda'u ceisiadau am arian oddi wrth y Comisiwn Ewropeaidd ac oddi wrth yr Adran dros Ddatblygu Rhyngwladol. Mae'r grantiau hyn yn galluogi ysgolion yma i ffurfio partneriaethau ystyrlon, cynaliadwy ag ysgolion eraill ar draws Ewrop ac ysgolion mewn gwledydd sy'n datblygu. Yn ogystal â chyfrannu at ddatblygiad proffesiynol staff, mae'r cysylltiadau hyn yn fodd i roi'r cyd-destun sydd ei angen i argyhoeddi disgyblion ac sy'n gwella sgiliau a gwybodaeth y dysgwyr a'u helpu i ddatblygu yn ddinasyddion gwirioneddol fyd-eang.

Cysylltiadau Ewropeaidd

Wide Minds (WiMi) Rhwydwaith Comenius

Cyngor Sir Ceredigion sy'n cydgysylltu'r rhwydwaith o 14 o wledydd yr Undeb Ewropeaidd ac yn cefnogi ysgolion yng Ngheredigion ac yn Sir Gaerfyrddin sydd â phrosiectau Ewropeaidd amlochrog sydd â'r nod o wella sgiliau TGCh ac yn annog dysgu ieithoedd eraill. Gwerthuswyd y rhwydwaith gan arbenigwr allanol eleni a gyfeiriodd at eu gwaith fel "rhyfeddol ac eithriadol". Hefyd mae'r cynllun wedi derbyn canmoliaeth uchel gan y Comisiwn Ewropeaidd.
Mae'r 10 ysgol ganlynol wedi mynychu hyfforddiant WiMi yma yng Nghymru, ac yn dilyn mynychu WiMi a mwy o gymorth yma, maent wedi llwyddo i gael grantiau hyd at 22,000 Ewro i ddatblygu prosiectau cwricwlwm holl Ewropeaidd: Glanymôr, Pontyberem, Gwenllian, Bancffosfelen, Pen-y-groes, Y Dderwen, Hen Heol, Carwe, Cefneithin, Y Ddwylan. Hefyd mae'r 9 ysgol ganlynol wedi cofrestru i gymryd rhan yn yr un broses yn y flwyddyn 2010/11: Ysgol Gymraeg Rhydaman, Halfway, Parc y Tywyn, Teilo Sant, Pont-iets, Felin-foel, Rhys Pritchard, Beca, Y Tymbl.

Prosiect Dinasyddiaeth

Bu cais llwyddiannus am grant Dinasyddiaeth sy'n canolbwyntio ar ddatblygu cynaliadwy a chydlyniant cymunedol o'r Rhaglen Dysgu Gydol Oes yn fodd i alluogi Cydweli wahodd eu gefeilldref St Jacut de la mer yn Llydaw i ymweld â hwy fis Gorffennaf 2010. Roedd hyn yn cynnwys 18 o ddisgyblion oed ysgol yn cael eu lletya gan Ysgol y Castell a Chyngor Ieuenctid y dref. Bydd y grant yn gymorth i dalu am ymweliad dychwelyd i Lydaw gan ddisgyblion pob ysgol yn ardal Cydweli fis Mai 2011.

Cynorthwywyr Ieithoedd Tramor

Bu'r 7 ysgol ganlynol yn croesawu Cynorthwywyr Ieithoedd Tramor o Ffrainc ac o'r Almaen: Dyffryn Aman, Maesyryrfa, Ysgol Uwchradd y Frenhines Elizabeth, Dyffryn Taf, Tregib, Bryngwyn, a'r Strade. Hefyd bu Ysgol y Castell yn croesawu cynorthwyydd Comenius Almaeneg o Heidelburg i wella'r ddarpariaeth yn yr iaith Almaeneg yn yr ysgol.
Mae trafodaethau ar y gweill gyda Phrifysgol Addysg Athrawon yn St.Gallen, Y Swisdir gyda'r bwriad o osod rhai o'u hathrawon dan hyfforddiant yn ysgolion cynradd y sir i wella'u sgiliau addysgeg a iaith ac i addysgu rhywfaint am ieithoedd a diwylliant Y Swisdir.

Cysylltiadau â Tsieina

Mae partneriaeth lwyddiannus iawn bellach wedi'i meithrin gyda sefydliad Confucius ym Mhrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant. Gyda chymorth yr HSBC yn ariannu Cysylltiadau â Tsheina, mae iaith a diwylliant Tsieina wedi'u haddysgu yn yr ysgolion canlynol: Halfway, Dyffryn Taf, ac Emlyn. Yn ogystal â Bacc Cymru, mae achredu pellach dysgu'r iaith Mandarin yn y sector uwchradd yn cael ei ymchwilio ar hyn o bryd.

Partneriaethau Ysgolion Byd-eang â Lesotho

Mae'r gwaith wedi parhau gyda Dolen Cymru Lesotho i feithrin cysylltiadau buddiol â gefeillwlad Cymru, Lesotho, drwy'r Rhaglen Partneriaeth Ysgolion Byd-eang. Mae'r ysgolion canlynol wedi cymryd rhan yn y rhan gyntaf, yr Ymweliad Cyfnewid: Model, Santes Fair, Brechfa, a Bro Myrddin. Mae eraill wedi mynd ymlaen i'r cam nesaf sy'n golygu cysylltiadau cwricwlwm mwy cynaliadwy a chynhwysfawr sy'n canolbwyntio ar Ddatblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang dros gyfnod posibl o 3 blynedd: Dyffryn Taf, Glanymôr, Peniel, Teilo Sant, Dewi Sant.
Gweithio mewn clwstwr lle mae ysgolion profiadol yn gweithio gydag ysgolion newydd yw'r allwedd i lwyddiant y prosiectau hyn a all helpu i newid bywydau er gwell yn y ddwy wlad.

Cysylltu Ystafelloedd Dosbarth ag India

Dechreuwyd ar y prosiect o gysylltu clwstwr o ysgolion â 10 ysgol yn Orissa, India, dros gyfnod o dair blynedd yn llwyddiannus yn yr Hydref. Mae'r ysgolion canlynol yn cymryd rhan: Pen-boyr, Dafen, Bryn-teg, Dyffryn Taf. Maent eisoes wedi croesawu ymweliad gan gynrychiolydd awdurdod lleol a dau athro o Orissa, a bu pawb sy'n ymwneud â'r prosiect mewn croeso swyddogol yn Neuadd y Sir. Mae'r prosiect hwn yn canolbwyntio ar gyfnewid diwylliannol a dathlu amrywiaeth.

Cysylltiadau Ysgolion Byd-eang yr Awdurdod Lleol â Malawi

Bellach mae cysylltiadau rhwng Sir Gaerfyrddin a Cheredigion ag Ardal Mangochi o Malawi, ychydig i'r de o Lyn Malawi. Bydd 7 o ysgolion Sir Gaerfyrddin - Strade, Pantycelyn, Y Felin, Pen-y-groes, Bryn, Parc y Tywyn, Tŷ-croes - yn cymryd rhan yn y prosiect cyffrous newydd hwn a ariennir o bosibl am 4 blynedd. Ymhlith y themâu y gobeithiwn ymchwilio iddynt gyda'n partneriaid newydd mae Bioamrywiaeth a Masnach Deg. Yn yr un modd â'r partneriaethau ysgolion â Lesotho nod y cysylltiadau hyn yw hyrwyddo Dinasyddiaeth Fyd-eang mewn ysgolion yn y ddwy wlad ac nid codi arian at elusen.

Gwobr Ryngwladol i Ysgolion

Dyffryn Taf yw un o'r ysgolion prin yng Nghymru sydd wedi derbyn y wobr Ryngwladol o fri i Ysgolion am eu gwaith yn cyfuno dimensiwn rhyngwladol a dinasyddiaeth fyd-eang mewn sawl maes o'r cwricwlwm a'i wneud yn rhan o fywyd beunyddiol yr ysgol. Ymhlith enillwyr eraill eleni oedd Ysgol y Castell.

Dathlu Llwyddiant

Fis Ebrill, 2010, cynhaliwyd y diwrnod WAW Ffactor (Cymru a'r Byd) a fynychwyd gan ysgolion Sir Gaerfyrddin a Cheredigion oedd yn awyddus i ddangos yr hyn yr oeddent wedi'i ddysgu o'u prosiectau partneriaeth ysgolion rhyngwladol. Bu staff a disgyblion ysgolion Pen-boyr, Brynteg, Dafen, Dyffryn Taf, Santes Fair a'r Dderwen yn cymryd rhan a chyflwyno perfformiadau bywiog i ddarlunio eu cysylltiadau â gwledydd mor amrywiol ag India, Ethiopia a Ffrainc. Hefyd bu'r ysgolion hyn yn cymryd rhan mewn gweithdai Tai Chi, Dawnsfeydd India, a Chrefftau Byd-eang. Y gobaith yw cynnal digwyddiad fel hwn eto yn y blynyddoedd sydd i ddod gan fod yr adborth o bob ysgol a gymerodd ran yn hynod gadarnhaol.

Ysgolion Bro

Clybiau ar ôl Ysgol Ownzone

Fis Medi 2009 agorwyd pum clwb newydd ar ôl oriau ysgol ar gyfer disgyblion ysgolion uwchradd yn Sir Gaerfyrddin. Agorwyd y clybiau newydd sy'n darparu gofal plant a dysg yn seiliedig ar fodel Ownzone yn ysgolion Dyffryn Aman, Glanymôr, Maes yr Yrfa, Strade a Sant John Lloyd. Mae'r clybiau newydd hyn yn dod â'r cyfanswm o glybiau Ownzone yn Sir Gaerfyrddin i ddeg clwb gan fod clybiau wedi cael eu cynnal yn ysgolion Bryngwyn, Coedcae, Dyffryn Taf, Gwendraeth a Thregib ers sawl blwyddyn.

Mae'r ddarpariaeth y tu allan i oriau ysgol a gyflwynir yn wahanol ym mhob ysgol. Ymgynghorwyd â'r bobl ifanc ac mae'r amrywiaeth o weithgareddau a ddatblygwyd yn amlygu canlyniadau'r ymgynghori hwnnw. Ymhlith y gweithgareddau a gynhaliwyd

mae sesiynau coginio, drama, karate a gwaith crefft. Mae'r arweinyddion clwb ym mhob ysgol wedi gweithio mewn partneriaeth â darparwyr dysgu eraill y tu allan i oriau ysgol gan gynnwys swyddogion 5x60, swyddogion MEND a Gweithwyr Ieuenctid i wneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael a sicrhau amrediad mor eang â phosibl o gyfleoedd dysgu.

Yn ôl y bobl ifanc mae'r profiad o fynychu clybiau Ownzone o fudd neilltuol ac yn miniogi'r meddwl. Pan ofynnwyd iddynt am eu barn ynglŷn â'r profiadau a ddaw i'w rhan drwy fynychu clybiau Ownzone ymhlith yr atebion oedd "Rwy'n datblygu fy sgiliau cyfathrebu", "Y peth gorau am ddod i Ownzone yw celf, Aikido a choginio" ac "Mae'n help i mi gyda'm sgiliau".

Pan holwyd am eu rhesymau dros ddod i'r clybiau ar ôl ysgol ymhlith yr ymatebion oedd "Mae'n gyfle i mi ymlacio a chael rhywfaint o amser rhydd", "Mae'n gyfle i mi wneud gwaith cartref a chwarae sgrabl a chael sgwrs", "Mae'n well na mynd adre a gwneud dim".

Ymwelwyr o Ewrop

Bu grŵp o bedwar ar ddeg o ymarferwyr addysg o'r Weriniaeth Tsiec yn ymweld ag Ysgol Carwe. Roedd yr ymarferwyr yng Nghymru ar ymweliad ar draws Ewrop i ddysgu sut mae ysgolion bro yn cael eu datblygu yng Nghymru, a'r modd y caiff yr ysgolion bro eu clustnodi yn strategaeth genedlaethol allweddol ar gyfer mynd i'r afael ag effaieth tlodi ar gyrhaeddiad disgyblion.

Ymwelwyd ag Ysgol Carwe fel bod yr ymarferwyr yn gweld drostynt eu hunain sut mae ysgol fach wledig yn cyflwyno addysg sy'n canolbwyntio ar y gymuned ac sy'n diwallu anghenion y dysgwyr, y rhieni a'r gymuned leol.

Y Prosiect Addysg Gorfforol a Chwaraeon Ysgol (PESS)

Cafodd y Prosiect Addysg Gorfforol a Chwaraeon Ysgol (PESS) ei sefydlu yn y flwyddyn 2000 yn sgîl adroddiad gan dasglu oedd yn amlinellu'r prif gamau oedd angen eu cymryd i wella safonau Addysg Gorfforol.

Nod y prosiect yw codi safonau mewn addysg gorfforol drwy wneud yn siŵr bod pob ysgol:

- Yn rheoli'r pwnc yn effeithiol o fewn y cwricwlwm ysgol gyfan;
- Yn pennu targedau heriol i godi safonau mewn addysg gorfforol a chwaraeon ysgol;
- Neilltuo digon o amser cwricwlwm i addysgu gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol ar gyfer addysg gorfforol ym mhob cyfnod allweddol;
- Datblygu sgiliau corfforol pobl o un flwyddyn i'r llall a gwella'u dealltwriaeth o bwysigrwydd iechyd a ffitrwydd;
- Codi safonau mewn addysg gorfforol a chwaraeon ysgol drwy sefydlu rhaglenni datblygu proffesiynol parhaus (DPP) ar gyfer pob athro/athrawes;
- Cefnogi ysgolion yng Nghymru i ymestyn y cyfleoedd ar gyfer chwaraeon ysgol y tu hwnt i oriau'r diwrnod ysgol drwy wella ansawdd a lled y gweithgareddau ar ôl ysgol ar gyfer pobl ifanc o bob oed, gallu, ethnigrwydd, rhywedd neu leoliad daearyddol;
- Sefydlu Partneriaethau Canolfan Ddatblygu a sicrhau eu bod yn gweithio gyda'i gilydd i glustnodi a datblygu arferion da mewn Addysg Gorfforol a Chwaraeon Ysgol.

Chwaraeon Cymru sy'n rheoli'r prosiect PESS ar ran Cynulliad Cymru. Cefnogir Chwaraeon Cymru gan dîm gweithredu cenedlaethol o arbenigwyr Addysg Gorfforol o bob rhan o Gymru. Mae'r arbenigwyr hyn hefyd yn ymgynghorwyr sy'n cefnogi'r gwaith o ddatblygu'r prosiectau arbenigol a datblygu tîm o hyfforddwyr cenedlaethol i gefnogi'r gwaith o gyflwyno rhaglen hyfforddiant o safon uchel fel rhan o'r prosiect.

Cyrsiau PESS

Yn ystod y flwyddyn academaidd ddiwethaf, cynhaliodd PESS 26 o gyrsiau di-dâl, a fynychwyd gan 383 o athrawon:

- Gymnasteg Modiwl 1 x 1 – 27 o athrawon
- Gymnasteg Modiwl 2 x 3 – 46

- Cyfnod Sylfaen Dawns x 2 - 31
- Iechyd, Ffitrwydd a Lles (Cynradd) x 3 – 34
- Iechyd, Ffitrwydd a Lles (Uwchradd) x 1 cwrs rhanbarthol – 5
- TGCh mewn AG x 2 – 17
- Cadw Dysgu ar y Trywydd Iawn x 3 – 39
- CA 2 Dawns x 3 – 39
- Cardiau Dysgu yn yr Awyr Agored x 2 – 37
- Chwarae i Ddysgu x 6 - 108

Bu'r Cydgysylltwyr PESS yn cydweithio'n agos â staff mewnol, yn ogystal ag ESIS, Dawns Powys, darlithwyr y Drindod Dewi Sant a hyfforddwyr cenedlaethol i ddarparu'r cyfleoedd DPP hyn. Hefyd cafodd 90 o athrawon sesiynau mentora fel dilyniant i'r cyrsiau PESS.

Diwrnod Pontio

Yn ystod Tymor y Gwanwyn 2010, bu PESS yn gweithio mewn partneriaeth â swyddogion Ysgolion Iach, Ymchwil Canser, Debra Byers (Ymarferydd Iechyd a Lles), staff Dieteg a'r swyddog 5x60 i drefnu diwrnod pontio yn Ysgol Uwchradd Pantycelyn ar gyfer disgyblion Blwyddyn 6 o'r ysgolion cynradd sy'n bwydo'r ysgol a disgyblion Blwyddyn 7 Pantycelyn. Bu'r plant yn cymryd rhan mewn gwahanol weithdai ar iechyd, ffitrwydd, lles a maeth, gyda disgyblion y Chweched Dosbarth yn cynorthwyo'r rhai ifancach i ddod o hyd i'r ffordd i'r gweithdai a hefyd yn cyflawni dyletswyddau goruchwylio.

'Chwarae i Ddysgu' PESS

Cafodd yr adnodd hwn ei greu i gynorthwyo ymarferwyr mewn lleoliadau ac ysgolion i gyflwyno Datblygiad Corfforol a Symudiadau Creadigol yn y Cyfnod Sylfaen, gan gyflwyno syniadau a gweithgareddau ar gyfer darpariaeth barhaus, estynedig â ffocws sy'n cyfuno pob maes dysgu. Roedd cyflwyno'r adnodd 'Chwarae i Ddysgu' ledled y sir yn enghraifft ardderchog o weithio mewn partneriaeth rhwng cydgysylltwyr PESS, athrawon ymgynghorol y Cyfnod Sylfaen a staff Cyfnod Sylfaen rhai o'n hysgolion. Cwblhawyd y gwaith o gyflwyno'r cynllun i ysgolion ledled y sir yn ystod tymor yr haf 2010, a bydd lleoliadau yn derbyn hyfforddiant yn ystod tymor yr Hydref 2010.

Mae Chwaraeon Cymru wedi datblygu adnodd arall ar gyfer ymarferwyr y Cyfnod Sylfaen dan yr enw 'Symudiadau Creadigol yn y Cyfnod Sylfaen' a'r gobaith yw y bydd PESS unwaith yn rhagor yn gweithio mewn partneriaeth agos â'r tîm Cyfnod Sylfaen i ddarparu'r hyfforddiant perthnasol.

Ariannu PESS

Ers dechrau'r flwyddyn ariannol gyfredol, mae dyrannu arian PESS wedi dod yn fwy hyblyg, sy'n golygu ei bod yn haws yn awr i ysgolion gynllunio eu camau eu hunain o fewn y prosiect PESS. Mae PESS yn parhau i gynnig cyrsiau a mentora, ond gall ysgolion hefyd yn awr wneud cais am arian ar gyfer costau cyflenwi er mwyn rhyddhau athrawon i ddatblygu cynlluniau gwaith (ar y cyd ag ysgolion eraill yn eu clwstwr), i fonitro Addysg Gorfforol ar draws yr ysgol, i arsylwi arferion da mewn ysgolion eraill neu i gael amser i gynllunio sut i weithredu'r hyn a ddysgwyd ar gwrs. Mae nifer go dda o ysgolion eisoes wedi dechrau manteisio ar y system newydd hon.

Datblygiad Arweinyddiaeth Ysgol

"Sicrhau Gwelliant drwy Ddatblygiad Proffesiynol"

Rhaglen Datblygu Arweinwyr Canol Cynradd

Mae ein Rhaglen Datblygu Arweinwyr Canol Cynradd yn parhau i feithrin sgiliau arwain a rheoli ar gyfer ymarferwyr cynradd. Carfan 4 yw'r garfan gyntaf i ddilyn Rhaglen ddiwygiedig swamwac i'r Arweinydd Canol drwy ddefnyddio'r modiwlau canlynol:

a) Hunanwerthuso, Myfyrio a Chynllunio Datblygiad Proffesiynol
b) Arwain y Dysgu
c) Cyfeiriad Strategol ar gyfer Gwella Ysgolion

Mae cynnwys y rhaglen yn cwmpasu'r prif gymhellion yn y byd addysg yng Nghymru (Gweithio Tair Haen, y Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion, Arweinyddiaeth System, Cymuned Ddysgu Broffesiynol, Myfyrio ynghylch Addysgeg ac ati) ac yn hybu gwell arferion a chynnydd ar lefel ysgolion unigol. Mae'r ymgeiswyr yn mwynhau amrediad eang o astudiaeth a gweithgareddau gan gynnwys arwain prosiect gwella ysgolion y cytunir arno. Mae pob prosiect gwella wedi'u gwreiddio'n ddwfn yng nghynllun datblygu eu hysgolion unigol. Hefyd mae'n gwrs defnyddiol tu hwnt fel rhagflaenydd i rolau arweinyddiaeth uwch a darpariaeth CPCP. Rydym yn parhau i weithio mewn partneriaeth glos â Phrifysgol y Drindod Dewi Sant, Caerfyrddin, gyda phob ymgeisydd llwyddiannus yn graddio ac yn derbyn Tystysgrif Graddedigion mewn Datblygiad Proffesiynol - Arweinyddiaeth Cynradd.

Ystadegau Cyfranogi /Graddio:

Carfan:	**Nifer y cyfranogwyr**	**Nifer y Graddedigion**
Carfan 1 (2007/08)	13	13
Carfan 2 (2008/09)	19	19
Carfan 3 (2009/11)	21	*Haf 2011
Carfan 4 (2010/12)	29	*Haf 2012

Y Cwrs CPCP (Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Prifathrawiaeth)

Rydym wedi parhau i gefnogi ac arwain cydweithwyr o ysgolion cynradd, uwchradd ac ysgolion arbennig sy'n awyddus i ddilyn y cwrs hwn ar gyfer Prifathrawiaeth. Yn dilyn adolygiad y Cynulliad o'r cwrs a'r penderfyniad i beidio â recriwtio yn ystod Tymor yr Hydref 2010, rydym yn monitro'r datblygiadau yn fanwl o ran darpariaeth yn y dyfodol. Ers sefydlu'r cwrs, mae cyfanswm o 85 o gydweithwyr Sir Gaerfyrddin wedi llwyddo i gwblhau'r cwrs CPCP, a 12 arall wrthi'n dilyn y cwrs ar hyn o bryd. O'r rhain mae 38 wedi symud ymlaen i swyddi prifathrawon.

Darlun o'r data 3 blynedd – Rhyw:

Blwyddyn:	Ymgeiswyr - Dynion (D)	Ymgeiswyr - Menywod (M)	Yn gymwys	Heb fod yn gymwys	Dwyieithog (Cymwys)
2007	15	12	14 (8D/6M)	13 (7D / 6M)	8 (2D / 6M)
2008	9	15	12 (3D/9M)	12 (6D / 6M)	10 (3D / 7M)
2009	11	9	12 (5D/7M)	8 (6D / 2M)	9 (5D / 4M)
2010	Recriwtio wedi'i ohirio				

Darlun o'r data 3 blynedd – Cyfnod:

Blwyddyn:	Cynradd (C)	Uwchradd (U)	Arbennig (Ar)	Yn gymwys	Heb fod yn gymwys
2007	22	3	2	14(12C/1U/1Ar)	13 (10C/2U/1Ar)
2008	17	6	1	12 (9C / 3U)	12 (8C/3U/1Ar)
2009	12	5	3	12 (6C/5U/1Ar)	8 (6C / 2Ar)
2010	Recriwtio wedi'i ohirio				

Y Rhaglen Sefydlu Broffesiynol i Benaethiaid

Mae'r cwrs hwn, a ariennir gan Lywodraeth y Cynulliad ar gyfer penaethiaid sydd newydd eu penodi yn cael ei hadolygu ar hyn o bryd. Rydym yn parhau i weithio i'r fformat gwreiddiol (rhaglen dwy flynedd o gymorth mentor a gweithgaredd cymunedol dysgu proffesiynol ychwanegol) ac ar yr un pryd yn cefnogi'n frwd y gwaith o ddatblygu model rhanbarthol o gyflwyno'r rhaglen dan adain swamwac. Mae dau rwydwaith cymorth (Gogledd Sir Gaerfyrddin/De Sir Gaerfyrddin) ar gael sy'n rhoi cymorth i gyfanswm o 21 o brifathrawon. Cynhelir cyfarfodydd grŵp ddwywaith y tymor sy'n dadansoddi materion ymarferol, perthnasol i brifathrawon ac yn hwyluso ymgysylltu â phartneriaid ychwanegol (cydweithwyr yn Adnoddau Dynol, Cynhwysiant, Tîm Gwella Ysgolion ac ati).

iNet / SSAT 'Datblygu Arweinyddion ar gyfer Yfory'

Rydym yn parhau i gefnogi carfanau swamwac i ddilyn y rhaglen ardderchog hon ar arweinyddiaeth i gydweithwyr yn y sector uwchradd / arbennig. Mae ein saith cydweithiwr gwreiddiol uwchradd yn Sir Gaerfyrddin (Carfan 3) bellach wedi symud i'w hail flwyddyn derfynol o'r cwrs diploma hwn a achredwyd. Rydym wedi croesawu un cydweithiwr yn Sir Gaerfyrddin i garfan 4 fydd yn ddi-os yn elwa o weithio mewn partneriaeth â chydweithwyr eraill yn swamwac. Nod penodol y cwrs yw paratoi arweinyddion y dyfodol, drwy ddefnyddio amrywiaeth eang o weithgareddau ac ymgysylltu â'r datblygiadau diweddaraf mewn addysg yng Nghymru a gwledydd eraill. Hefyd mae cymryd rhan yn y cwrs yn rhoi haen ychwanegol i'r Awdurdod o weithgareddau rhyngweithio hynod werthfawr ar draws ein hysgolion.

(*International Networking for Educational Transformation / Specialist Schools Academy Trust)

Swamwac 'Datblygu Arweinyddion ar gyfer yfory' Carfan 1:

Awdurdod	Dynion sy'n cymryd rhan	Menywod sy'n cymryd rhan	Cyfanswm
Sir Gaerfyrddin	3	4	7
Abertawe	2	1	3
Ceredigion	1	0	1
		Cyfanswm y Garfan	11

Swamwac 'Datblygu Arweinyddion ar gyfer yfory' Carfan 2:

Awdurdod	Dynion sy'n cymryd rhan	Menywod sy'n cymryd rhan	Cyfanswm
Sir Gaerfyrddin	1	0	1
Castell-nedd P.Talbot	0	2	2
Powys	1	4	5
		Cyfanswm y Garfan	8

Datblygu Arweinyddiaeth System

Mae Sir Gaerfyrddin wrthi'n frwd yn datblygu 'Meddwl trwy Systemau' mewn modd ymarferol a chynhyrchiol. Drwy adeiladu ar lwyddiant Rhaglen swamwac ar Ddatblygu Arweinyddiaeth System (Tymor yr Haf 2010) oedd yn hwyluso'r gwaith o hyfforddi a pharatoi 35 o gydweithwyr ysgol a chydweithwyr yr ALl, rydym bellach yn gweithio gyda chydweithwyr ar draws amrediad o leoliadau a rolau.

Mae ein 'Arweinyddion System' wrthi'n frwd yn cymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau gan gynnwys:

a) Partner Pennaeth – yn rhoi cyfarwyddyd a chymorth i ysgolion sy'n wynebu her mewn meysydd penodol
b) Pennaeth Gweithredol – yn arwain ysgolion o fewn partneriaeth / ffederasiwn

c) Arloeswyr Cwricwlwm – yn arwain arloesedd yn y cwricwlwm ac yn rhannu arferion da
d) Rôl Swyddog Strategol Gwella Ysgolion - rhoi cyngor, cymorth a her i ysgolion ar draws amrediad eang o feysydd cyffredinol a phenodol
e) Arweinyddion Cymuned Ddysgu Broffesiynol – arwain cymunedau dysgu proffesiynol ar lefel rhyng ysgolion ac o fewn ysgol
f) Pennaeth / ymarferydd cymheiriaid – cefnogi ysgolion drwy'r prosesau Safon Ansawdd Sgiliau Sylfaenol ac ati

Mae'r pwyslais teilwng ar ymgysylltu â'r cymunedau dysgu proffesiynol yn ategu'r cyfryw waith, fydd yn ei dro, yn parhau i gynyddu mewn momentwm a ffocws wrth i ragor o lwybrau agor ar gyfer cydweithredu effeithiol.

Gwaith y Corff Llywodraethol

Un o brif ddyletswyddau corff llywodraethol ysgol yw ei rôl strategol mewn datblygu'r ysgol a chynorthwyo i bennu'r fframwaith bras sy'n rheoli'r modd y mae'r pennaeth a'r staff yn rhedeg yr ysgol. Drwy fod yn atebol i'r rhanddeiliaid, mae corff llywodraethol yn mabwysiadu ac yn adolygu polisïau sy'n ategu'r gwaith o gyflawni nodau ac amcanion o ran gwella'r ysgol, safonau ac ymddygiad. I wireddu'r nodau hyn mae angen i'r llywodraethwyr gael hyfforddiant a chymorth priodol er mwyn gallu cyflawni eu dyletswyddau yn effeithiol.

Tan yn ddiweddar bu'r Awdurdod Lleol yn ymgynghori â'r Grŵp Ffocws Hyfforddiant Llywodraethwyr i ystyried pa hyfforddiant sydd ei angen ar lywodraethwyr. Mae'r grŵp hwn bellach wedi esblygu yn Fforwm Llywodraethwyr lle mae cynrychiolwyr llywodraethwyr yn cyfarfod yn rheolaidd ag uwch swyddogion yr awdurdod i drafod a gwneud argymhellion ar gyfeiriad strategol, hyfforddiant a materion eraill sy'n ymwneud â llywodraethu effeithiol. Mae Fforwm Llywodraethwyr Sir Gaerfyrddin yn cydnabod y cynnydd yng nghyfrifoldebau a dyletswyddau'r llywodraethwyr heddiw, y pwysigrwydd o weithio drwy gydweithredu gyda'r awdurdod, gwella ysgolion a safonau er mwyn y plant, ac i'r perwyl hwn anelu at ragoriaeth.

Gwasanaeth Cefnogi Cyfathrebu Sir Gaerfyrddin – Dulliau Newydd

Mae staff yr Adran Addysg a Phlant yn gweithio gyda chydweithwyr ynn Ngwasanaeth Therapi Lleferydd a Iaith Bwrdd Iechyd Hywel Dda i ymchwilio i, a gweithredu ffordd newydd o gydweithredu i gynorthwyo plant a phobl ifanc sydd ag anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu.

Y cam cyntaf oedd ymchwilio i'r modd y mae'r ddwy adran yn gweithio ar hyn o bryd. Gwnaed hyn gan y Grŵp Gorchwyl a Gorffen oedd yn cynnwys cydweithwyr o'r ddau wasanaeth, a chynhyrchwyd adroddiad ar ganfyddiadau'r grŵp fis Chwefror 2009 oedd yn gwneud argymhellion ar arferion cydweithredu. Hefyd roedd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen wedi datblygu cynllun gweithredu oedd yn nodi'r manylion am sut y gellid gwireddu hyn. Ers hynny ymgynghorwyd â'r rhanddeiliaid ac ym mis Medi 2010 cychwynnwyd ar gynllun peilot mewn chwe ysgol gynradd yn Llanelli. Ddechrau 2011 bydd y peilot hwn yn cael ei werthuso, gan fynd ati i roi'r camau nesaf yn y cynllun gweithredu ar waith. Bydd y camau hyn yn cynnwys datblygu achos busnes i ledaenu'r cynllun newydd hwn ar draws y sir yn gyfan, ac ail beilot fydd yn cynnwys ysgolion sy'n dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

Gellir crynhoi nodau'r dulliau newydd fel

- defnyddio adnoddau presennol y ddwy adran yn fwy effeithiol i ddiwallu anghenion pob disgybl.
- grymuso ysgolion i ddiwallu anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu eu disgyblion drwy ddarparu hyfforddiant ac adnoddau yn ogystal â chefnogi arferion effeithiol ar lefel dosbarth ac ysgol gyfan.
- ymgysylltu â'r rhieni a'u cynnwys mewn meithrin sgiliau lleferydd, iaith a chyfathrebu eu plant.
- yn y pen draw, gwella sgiliau lleferydd, iaith a chyfathrebu pob plentyn yn Sir Gaerfyrddin.

Mae'r ymagwedd newydd hon wedi'i nodi yn y Cynllun Plant a Phobl Ifanc ac mae'r Grŵp Strategol ar Anghenion ac Anabledd Cymhleth yn monitro'r gwaith bob tymor.

Yr Her F1

Mae Her F1 mewn Ysgolion yn parhau i ddod yn fwyfwy poblogaidd wrth i ysgolion ddechrau sylweddoli posibiliadau'r cynllun o ran ysgogi disgyblion yn eu dysgu drwy gynnig cyd-destun cyfoethog a real. Drwy fodelu eu hunain ar dîm F1 go iawn, rhaid i ddisgyblion chwilio am nawdd, datblygu delwedd tîm a gwneud ymchwil ar geir rasio a dylunio car rasio drwy ddefnyddio'r dechnoleg gyfrifiadurol ddiweddaraf. Mae ysgolion cynradd ac uwchradd y sir wedi cael llwyddiant mawr yn Rowndiau Terfynol Rhanbarth y De yn ystod y ddau dymor rasio diwethaf, a bydd cynifer ag wyth tîm yn cynrychioli'r awdurdod yn yr wythnosau sydd i ddod pan fydd Tymor newydd Rasio 2010-11 yn cael ei lansio.
Bu rhaglen Ymchwil Weithredu oedd yn cynnwys 5 ysgol gynradd ac ysgol uwchradd oedd yn benderfynol o ddatblygu eu Cymuned Ddysgu Broffesiynol yn defnyddio'r prosiect fel cyfrwng i ategu a herio dysgu. Roedd y prosiect wedi dangos bod darparu cyd-destun cyfoethog a chanolbwyntio ar ddeilliannau dysgu yn dangos bod Cymuned Ddysgu Broffesiynol mewn gwirionedd **yn** gwella deilliannau disgyblion. Ar hyn o bryd mae tri o brosiectau SMART yn Sir Gaerfyrddin yn defnyddio'r F1 yn Her Ysgolion er mwyn i'r bobl ifanc gael achrediad am eu dysgu drwy'r rhaglen hon.

Cynrychiolwyr o Ysgolion Carwe, Bancffosfelen, Pontiets, Gwynfryn a Phonthenri yn eu cyfarfod Rhwydweithio "Diwrnod y Ras" fis Mai 2010.

Y Gwasanaeth Cyrhaeddiad Lleiafrifoedd Ethnig a Theithwyr (METAS)

Eleni mae METAS wedi llwyddo i gael arian gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop i ariannu dau brosiect sydd â'r nod o ychwanegu gwerth a chynhwysedd i'r ddwy agwedd o'r gwasanaeth, gan ddefnyddio arian blynyddol y Cynulliad fel arian cyfatebol.

Y Gwasanaeth Cyrhaeddiad Lleiafrifoedd Ethnig.

Mae dyfodiad niferoedd mawr o deuluoedd o wledydd Ewrop dros y blynyddoedd diweddar hyn yn ogystal â mewnlif cyson o deuluoedd eraill o sawl rhan arall o'r byd, yn ddi-os wedi rhoi pwysau ar ariannu addysg ar draws Cymru a gwledydd eraill Prydain i ddarparu cymorth priodol i blant a phobl ifanc mewn ysgolion sy'n dysgu Saesneg fel Iaith Ychwanegol.

Hyd yma mae rhyw 450 - 500 o ddisgyblion lleiafrifoedd yn ysgolion Sir Gaerfyrddin sy'n dysgu Saesneg fel Iaith Ychwanegol ac erbyn hyn mae rhyw hanner ohonynt o wlad Pwyl. Mae eraill o wledydd eraill dwyrain Ewrop yn ogystal â'r Philippines, India, Tsieina ac amrediad eang o gefndiroedd ieithyddol eraill.

Lansio'r DVD "Un Gymru, Sawl Llais" oedd ffrwyth menter a ariannwyd gan y Cynulliad i gynhyrchu DVD ar arferion da y gallai'r Awdurdodau Addysg Lleol a'r ysgolion yng Nghymru ei ddefnyddio at ddibenion hyfforddiant Saesneg fel Iaith Ychwanegol. Roedd y gweinidog addysg a siaradwyr gwadd eraill yn y lansiad yng Nghaerdydd wedi canmol y gwaith a wnaed gan bob awdurdod fu'n cymryd rhan, ac roedd Sir Gaerfyrddin yn un ohonynt. Dosbarthwyd copi i bob awdurdod ac i bob ysgol yng Nghymru.

Er nad yw caffael iaith newydd ar ddechrau gyrfa ysgol yn cael ei ystyried ar y cyfan yn her ddirfawr, mae'r sefyllfa yn y cyfnodau diweddarach, yn enwedig ar lefel uwchradd, yn bur wahanol. Mae dysgwyr ar y lefel hon mewn perygl gwirioneddol o dangyflawni, a all arwain at ddadrithio a heb fawr o obaith am swydd yn y dyfodol.

Mae'r Grant Cyrhaeddiad Lleiafrifoedd Ethnig blynyddol (MEAG) a delir gan y Cynulliad yn ariannu'r gwasanaeth hwn, ac adolygir y grant yn gyson yn enwedig yn yr hinsawdd ariannol anodd sydd ohoni. Serch hynny, mae llwyddiant y cais yn ddiweddar am arian Ewrop i gyflawni'r Prosiect Cyrhaeddiad Ieithoedd Lleiafrifol Ethnig (a ariennir gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop) wedi golygu rhywfaint o sefydlogrwydd i barhad manteision MEAG (a ddefnyddir fel arian cyfatebol) o leiaf am oes y prosiect sy'n rhedeg tan fis Medi 2013.

Anelir y prosiect at bobl ifanc rhwng 11 ac 19 oed, a bydd yr ariannu yn ychwanegu gwerth at y gwaith sydd eisoes yn cael ei wneud gan y gwasanaeth hwn. Y bwriad yw cyflogi athro profiadol ychwanegol Saesneg fel Iaith Ychwanegol i gydgysylltu'r gwaith a wneir yn yr ysgolion gyda chymorth cynorthwyydd addysgu dwyieithog ychwanegol mewn Pwyleg. Byddant yn gweithio'n agos gyda staff a myfyrwyr i gynnig amrediad o strategaethau cymorth yn ogystal â chymorth yn y dosbarth.

Ymhlith y strategaethau hyn fydd:

- cyfleoedd mentora;
- cymorth gyda gweithgareddau ar ôl ysgol gyda'r nod o gynorthwyo i hyrwyddo cydlyniant cymdeithasol a chymunedol,
- cymorth i glybiau gwaith cartref,
- cyfarwyddyd a chymorth ar astudio ieithoedd cymunedol;
- cyngor ar lwybrau dysgu amgen a
- chyngor ar yrfaoedd.

Rhagwelir y bydd y prosiect yn cynnig golwg ehangach ar y sialensiau sy'n wynebu pobl ifanc o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig sy'n ymdrechu i wireddu eu potensial mewn ysgolion, ac arwain at well dealltwriaeth o'r modd y gellir cyflawni eu dyheadau yn y dyfodol.

Y Gwasanaeth Cyrhaeddiad Teithwyr

Cydnabyddwyd ers tro byd bod y Teithwyr Sipsiwn Romani ymhlith y sectorau mwyaf ymylol a difreintiedig o'r gymuned. Gyda hyn mewn golwg, roedd lansio'r Prosiect Dysgu a Chael Cyflogaeth yn y Dyfodol ar gyfer Sipsiwn-Teithwyr eleni, a ariennir gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop, sydd â'r nod o roi cymorth i'r grŵp oedran 11-19 tan fis Medi 2012, yn ceisio mynd i'r afael â rhai o'r materion hyn.

Yn draddodiadol, tuedd cymuned y teithwyr yw peidio ag anfon eu plant i'r ysgol uwchradd gan y rhoddir mwy o bwyslais ar ddilyn arferion eu diwylliant o briodi a chael plant yn ifanc, a mabwysiadu rolau gweithio traddodiadol eu rhieni. Fodd bynnag mae pethau yn newid ac mae mwy o bobl ifanc o gefndiroedd teithwyr yn dewis manteisio ar gyfleoedd dysgu fydd yn arwain at well gobaith o gael gwaith. Mae rhai disgyblion yn dewis addysg prif-ffrwd tra bod eraill yn mynychu'r rhaglenni SMART sy'n cynnig cyfleoedd mwy galwedigaethol.

Cafodd y penderfyniad ei wneud yn yr haf i gau Canolfan Ddysgu Bynea - cyfleuster (sydd ynghlwm wrth yr ysgol gynradd) ar gyfer pobl ifanc Teithwyr yn ardal Llanelli nad ydynt yn hapus i fynychu ysgolion prif-ffrwd. Barnwyd bod y gost o ddarparu cymorth dwys yn y lleoliad hwn yn bris rhy uchel i'w dalu ac ond yn gwasanaethu nifer fach o ddisgyblion. Hefyd gwelwyd nad oedd y fenter hon yn arfer gorau o ran cynhwysiant.
Yn hytrach mae grant y Cynulliad wedi'i ddefnyddio'n awr ar gyflogi staff i roi cymorth a chyngor i nifer o ysgolion lle mae'r angen mwyaf, ac yn arbennig, ar weithio'n agos y tymor hwn gyda disgyblion oedd gynt yn mynychu Canolfan Ddysgu Bynea wrth iddynt addasu i leoliad addysgol cwbl wahanol.

Mae peth o arian grant y Cynulliad wedi'i ddefnyddio i brynu gliniaduron fel y gall disgyblion o gefndiroedd Ffeiriau gadw mewn cysylltiad â'u hysgolion tra'n teithio gyda'u rhieni. Mae hyn yn eu galluogi i fewngofnodi a chael mynediad i waith cwrs a dilyn cyfarwyddyd gan eu hathrawon fel nad ydynt ar ôl gyda'u gwaith pan fyddant yn dychwelyd i'r ysgol.

Mae'r AALl wedi dal gafael ar y lle yn ysgol Bynea ac yma yn awr mae'r ganolfan i staff cynnal Teithwyr gan gynnwys y Cydgysylltydd Prosiect (a ariennir gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop) sy'n gweithio'n agos gyda theuluoedd ac ysgolion i glustnodi'r bobl ifanc hynny sydd heb lawer o brofiad, neu ddim profiad o gwbl o addysg ysgol uwchradd. Trefnwyd cyfleuster galw-i-mewn ym Mynea i gynnig cymorth a chyfarwyddyd ar amrywiaeth o faterion, a threfnir ymweliadau â safleoedd Teithwyr i ymgysylltu'n uniongyrchol â theuluoedd i'w hannog i gymryd mantais o amrediad o gyfleoedd addysgol a ddarperir gan y Sir. Mae gweithio'n agos gyda'r gwasanaeth Swyddogion Lles Addysg yn elfen bwysig o'r gwaith.

Mae Strategaeth Addysg Teithwyr METAS wedi cyfrannu at Strategaeth Teithwyr drafft ar gyfer Sir Gaerfyrddin - sy'n cynnwys asiantaethau tai, iechyd ac asiantaethau eraill yn gweithio gyda chymunedau'r Teithwyr. Mae'r strategaeth hon yn y broses o gael ei chymeradwyo gan aelodau o fwrdd gweithredol y Cyngor. Nod y strategaeth yw mabwysiadu dulliau mwy cydlynol o ddarparu mynediad i'w wasanaethau drwy ddeall anghenion poblogaeth Teithwyr Sir Gaerfyrddin.

Gwasanaeth Cwnsela mewn Ysgolion

Fel rhan o ail flwyddyn strategaeth y Cynulliad ar alluogi disgyblion uwchradd gael mynediad i wasanaeth cwnsela proffesiynol annibynnol mae pob ysgol uwchradd (14 i gyd) wedi derbyn gwasanaeth cwnselydd o Ardal 43 sydd wedi'u comisiynu i roi Gwasanaeth Cwnsela mewn Ysgolion. O fis Medi estynnwyd y gwasanaeth i weddill yr ysgolion uwchradd (9 ohonynt) yn ardaloedd Caerfyrddin a Dinefwr, gan fod ardal Llanelli wedi'i thargedu yn y flwyddyn gyntaf. Wrth i'r galw am y gwasanaeth dyfu gydol y flwyddyn, mae ail ddiwrnod yr wythnos wedi'i neilltuo i 3 ysgol.

Mae 8 ysgol gynradd wedi defnyddio'r gwasanaeth cwnsela ar gyfer disgyblion blwyddyn 6 i'w cynorthwyo gyda'r broses pontio. Mae peth o'r cwnsela wedi digwydd yn yr ysgol gynradd ei hun ac yna'n trosglwyddo i'r uwchradd i gynorthwyo'r broses pontio o CA2 i CA3.
Yn ystod tymor yr haf 2010 cyflwynwyd y Gwasanaeth Cwnsela i'r Uned Cyfeirio Disgyblion, Tŷ Aalton ac i Ganolfan Addysgu a Dysgu CA3 Pwll, a neilltuwyd cwnselydd teithiol i'r lleoliadau hyn.

Mae'r drefn mewn ysgolion uwchradd newydd wedi'i sefydlu yn hwylus ac roedd pob ysgol yn cynnig cwnsela erbyn mis Hydref 2009. Gwelwyd bod nifer dda o ddisgyblion wedi manteisio ar y gwasanaeth gyda 361 wedi defnyddio'r gwasanaeth am 4 i 5 sesiwn cwnsela ar gyfartaledd, a hynny ar draws yr ystod oedran. Gan fod rhestr aros fer erbyn hyn ymatebwyd drwy gynyddu'r ddarpariaeth lle bo'r niferoedd yn gwarantu hynny.

Mae Ardal 43 yn cynnal proses gyson o adborth a gwerthuso drwy ofyn i'r cleientiaid lenwi holiaduron bodlonrwydd. Gwneir hyn yn ddienw, a gwahoddir pobl ifanc i ymateb i amrediad o gwestiynau sy'n rhoi'r cyfle iddynt ymateb yn onest. Cafwyd ymateb gan 20% o'r disgyblion ac o'r rheiny roedd 98% wedi gwneud sylwadau cadarnhaol neu gadarnhaol iawn i'r cwestiynau yn yr holiaduron, megis: A oedd gweld cwnselydd yn gymorth i chi?; Sut oedd hynny'n gymorth i chi?; A oes rhywbeth yn eich barn chi a allai wella'r gwasanaeth?...a chwestiynau eraill am sut oedd y broses yn gweithio …..yr amgylchedd….proses apwyntiadau ac ati.

Dyma rai o'r dyfyniadau a ddewiswyd ar hap o'r flwyddyn o wahanol ysgolion:-

"Roedd yn help i mi drwy siarad ag eraill am fy emosiynau."

"Roedd yn help i mi …. anwybyddu pobl eraill a mynd ati i wneud y gwaith."

"Roedd yn help i mi weld pethau o bersbectif arall ac yn hwb i'm hyder."

"Bod gen i'r hyder i siarad am fy mhroblemau a pheidio â chadw'r cyfan i mi fy hun."

"Roedd yn gyfle i mi siarad am fy nheimladau ac roedd yn help i mi ymdopi. Rwyf am ddweud diolch i Carol am bopeth y mae hi wedi'i wneud i fi. Mae wedi bod gymaint o help i fi."

"Roedd y cymorth yn gefn mawr i mi drwy ysgariad fy rhieni."

"Roedd yn help i fi gael mynegi fy nheimladau a chael gwared ar fy nicter, rwy'n teimlo gymaint yn well."

Mae Ardal 43 bellach wedi cyflwyno'r system YP CORE i'r gwasanaeth ac felly yn y dyfodol byddant yn gallu ychwanegu data sy'n mesur cynnydd a newid.
Mae Ardal 43 wedi cynnal arolwg o fodlonrwydd ysgolion. Dychwelyd 60% o'r holiaduron ac roedd pob un ohonynt yn cynnwys adborth cadarnhaol ond hefyd yn cynnwys rhai sylwadau adeiladol y mae'r gwasanaeth wedi'u cymryd i ystyriaeth.

Yn ôl yr adborth o'r ysgolion uwchradd mae cwnsela mewn ysgol yn ychwanegiad tra gwerthfawr i'w systemau bugeiliol. Gwelir bod y gwasanaeth yn hynod ymatebol ac yn gallu bodloni amrediad o anghenion lle bo disgyblion yn dymuno defnyddio'r math hwn o wasanaeth. Mae canfyddiadau ysgolion a disgyblion yn dynodi bod ymroddiad i ddysgu a lles emosiynol yn llawer gwell ar ôl derbyn cwnsela yn y mwyafrif o achosion.

Mae cwnselwyr Ardal 43 wedi cynnig cyfrannu at wersi ABCh mewn ysgolion er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r gwasanaeth cwnsela mewn ysgolion a hyrwyddo cwnsela fel un agwedd ar gefnogi lles emosiynol. Cysylltwyd â'r Athro Ymgynghorol ABCh i adolygu'r cwricwlwm ABCh. Mae rheolwr Ardal 43 wedi mynychu cyfarfod rhwydweithio cydgysylltwyr ABCh eleni.

Hefyd mae rheolwr Ardal 43 wedi mynychu'r grŵp cynllunio/comisiynu strategol aml-asiantaeth Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc "grŵp Iechyd Emosiynol a Lles" ac wedi cyfrannu at gynllunio 'meddwl heb orwelion'.

Hefyd roedd Ardal 43 wedi gwneud cyflwyniad mewn cynhadledd prifathrawon fis Hydref 2009 oedd yn canolbwyntio ar yr elfen Lles Emosiynol o Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion.

Fforymau Cydgysylltwyr AAA yn Sir Gaerfyrddin

Mae fforymau tymhorol Cydgysylltwyr AAA yn rhan bwysig iawn o raglen flynyddol yr hyfforddiant a ariennir gan y Gronfa Ysgolion Gwell. Yr adran Anghenion Dysgu Ychwanegol sy'n trefnu'r fforymau ac fel arfer mae'r rhaglen yn cychwyn gyda diweddariad i'r Cydgysylltwyr AAA ar fentrau cenedlaethol a sirol newydd a gyflwynir fel arfer ar y cyd gan y Pennaeth Llywodraethu a'r Rheolwr Cynhwysiant ac Anghenion Dysgu Ychwanegol. Gweddill y diwrnod ceir cyflwyniadau a gweithdai ac mae'r fforymau diweddar wedi cwmpasu'r canlynol:

- Dulliau newydd o reoli ymddygiad

- Sut mae diwallu anghenion disgyblion sydd ag anawsterau dysgu penodol
- Agweddau o'r broses statudol e.e. arferion da ar gyfer cyfarfodydd Adolygiad Blynyddol
- Asesu disgyblion sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol
- Dulliau newydd o gydweithredu i ddiwallu anghenion disgyblion sydd ag anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu

Mae cydweithwyr o'r adran Anghenion Dysgu Ychwanegol yn cyfrannu at waith y fforymau yn ogystal â seicolegwyr a siaradwyr o asiantaethau eraill. Er enghraifft, bydd y fforwm nesaf yn cynnwys cyflwyniadau a gweithdai a ddarperir gan yr adran Therapi Galwedigaethol.

Trefnir gweithdai ar wahân i Gydgysylltwyr cynradd ac uwchradd am ran o'r dydd lle bo hynny'n bosibl gan y cydnabyddir bod y ddwy sector yn wynebu gwahanol heriau.

Yn ogystal â derbyn gwybodaeth newydd a chadarnhad o arferion da yn ystod y fforymau, mae'r Cydgysylltwyr hefyd yn gwerthfawrogi'r cyfle i gymysgu gyda chydweithwyr o ysgolion eraill a rhannu eu gwybodaeth a'u profiad.

Mae nifer dda yn mynychu'r fforymau hyn ac mae'r adborth gwerthuso gan y rhai sy'n mynychu yn ffafriol ar y cyfan. Mae'r adran ADY yn cymryd sylw manwl o'r adborth a dderbynnir fel y gellir mireinio a gwella trefniadaeth a chynnwys fforymau'r dyfodol yn barhaus.

Gwasanaeth Cerdd Sir Gaerfyrddin

Mae nifer fawr o ddisgyblion Sir Gaerfyrddin yn parhau i gymryd rhan mewn amrywiol gyfleoedd perfformio yn y sir, ac mae sawl un yn mynd ymlaen i lefel uwch na'r sir:

- cafodd 6,134 o ddisgyblion hyfforddiant gyda Gwasanaeth Cerdd Sir Gaerfyrddin
- roedd 1,900 o ddisgyblion yn cymryd rhan mewn cyfleoedd perfformio ar lefel Iau, Canolradd a Sirol.
- roedd 93 o ddisgyblion yn cynrychioli'r sir mewn 5 ensemble a gynigiwyd ar lefel y Tair Sir
- bu 30 o ddisgyblion Sir Gaerfyrddin yn perfformio ym Mharis a'r cyffiniau gyda Chôr Ieuenctid y Tair Sir a'r Gerddorfa Siambr.
- bu 31 o ddisgyblion yn cynrychioli Sir Gaerfyrddin mewn un o'r 5 Ensemble Cenedlaethol Celfyddydau Cenedlaethol Ieuenctid Cymru.

Eisteddfod yr Urdd, Llanerchaeron, Ceredigion

Llwyddiant ysgubol unwaith eto fu hanes plant a phobl ifanc Sir Gaerfyrddin yn Eisteddfod yr Urdd 2010:

- Enillodd pobl ifanc Sir Gaerfyrddin 21 gwobr gyntaf, 16 ail wobr a 21 trydedd wobr ar lwyfan yr Eisteddfod Genedlaethol.
- Enillodd pobl ifanc Sir Gaerfyrddin 31 gwobr yn y cystadlaethau Celf a Dylunio a Thechnoleg a 13 gwobr am waith cartref. Enillodd Morgan Lewis o Ysgol Carreg Hirfaen y wobr gyntaf am greu gwefan i ddisgyblion ym Mlwyddyn 6 ac is.

Cerddorion Ifanc Dyfed

Mae cerddorion ifanc o Sir Gaerfyrddin wedi parhau i fwynhau llwyddiant yn y ddwy gystadleuaeth a lwyfennir gan yr elusen 'Cerddorion Ifanc Dyfed':

- Enillodd Aled Start y gystadleuaeth Cyfansoddwr Ifanc Dyfed 2010 gyda'i ddarn 'Inflection' ar gyfer y pedwarawd sacsoffon. Hefyd llwyddodd saith cyfansoddwr ifanc arall o Sir Gaerfyrddin i gyrraedd y rownd derfynol - Christopher Bowman, Siôn Hupfield, Hannah McCarthy, Sioned Roberts, Aled Start, Emily Wright ac Ewan Wright.
- Enillodd y delynores Anne Denholm y gystadleuaeth Cerddor Ifanc Dyfed fis Tachwedd 2009 gyda'r trwmpedwr Matthew Williams yn ail.

Ystadegau gweithgareddau/digwyddiadau Urdd Gobaith Cymru 2009-10 – Rhanbarth Gorllewin a Dwyrain Myrddin

Chwaraeon

Cyfanswm
Pêl droed bechgyn cynradd – 628
Pêl droed merched cynradd – 398
Pêl rwyd cynradd – 462
Rygbi cynradd – 512
Gymnasteg – 71
Criced – 90
Gêmau hwyl – 488
Gala nofio – 891

Eisteddfodau

Cylchoedd –
Caerfyrddin – Celf a chrefft – 281, Eisteddfod cynradd – 1,556
Cwm Taf – Celf a chrefft – 341, Eisteddfod gylch – 841
Mynydd Mawr – Celf a chrefft – 88, Eisteddfod gylch – 740
Aman – celf a chrefft – 71, Eisteddfod gylch – 651
Blaenau Tywi – Celf a chrefft – 190, Eisteddfod gylch – 601
Llanelli – Celf a chrefft – 152, Eisteddfod gylch – 1,129

Rhanbarth –
Eisteddfod ddawns rhanbarth Gorllewin Myrddin – 189
Eisteddfod uwchradd rhanbarth Gorllewin Myrddin – 757
Eistedddfod cynradd rhanbarth Gorllewin Myrddin – 517
Celf a chrefft rhanbarth Gorllewin Myrddin - 159
Eisteddfod ddawns rhanbarth Dwyrain Myrddin – 165
Eisteddfod uwchradd rhanbarth Dwyrain Myrddin – 689
Eisteddfod cynradd rhanbarth Dwyrain Myrddin – 458
Celf a chrefft rhanbarth Dwyrain Myrddin - 107

Eraill –
Neges Ewyllys Da (gweithdy yn y gerddi botaneg) – 193
Sul yr Urdd (gwasanaeth sul) – 43
Gwyl Ieuenctid (uwchradd) – 52
Cwrs hyfforddi Dawnsio Gwerin – 51
Cystadleuaeth coginio – (Cogurdd – cynradd) – 15
Adrannau pentref - 171 (adrannau Ffynnonddrain, Gwili, Llannau'r Felin, Neuadd fach, Penrhyd, Llandeilo a Llanarthne)
Aelwydydd pentref – 110 (Aelwydydd Myrddin, Hafodwenog, Cynwyl Elfed, Penrhyd, Gwili, Llanarthne a Llandeilo)
Clybiau Ysgolion cynradd (43 o ysgolion yn cynnal clwb ar ôl ysgol neu yn ystod oriau ysgol)

Cynlluniau Ysgolion Iach - Rhwydwaith Cymru

Y Fenter Ysgolion Iach yw'r bartneriaeth sy'n goruchwylio'r trefniadau lleol ar gyfer y fenter a arweinir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i sicrhau fod ysgolion lleol yn amgylcheddau iach ar gyfer plant a phobl ifanc. Yn sgîl y fenter caiff prosiectau eu datblygu sy'n ymwneud ag amryw o faterion a all effeithio ar iechyd a lles plant a phobl ifanc, gan gynnwys maeth ac anghenion deietegol, ac iechyd corfforol ac emosiynol. Mae'r ysgol yn allweddol i wella iechyd yn ogystal ag addysg.

Mae pob un o'r 134 ysgol yn Sir Gaerfyrddin wedi ymuno â'r Cynllun Ysgolion Iach. Yn ôl yr asesiad diwethaf ym mis Mehefin 2010, roedd 130 ysgol wedi cyrraedd cam 1, 102 ysgol wedi cyrraedd cam 2, 71 ysgol wedi cyrraedd cam 3, 15 ysgol wedi cyrraedd cam 4, ac mae Ysgol Plant Bach Porth Tywyn wedi cyrraedd cam 5.

Mae Sir Gaerfyrddin eisoes yn cyflawni'n well na disgwyliadau Llywodraeth y Cynulliad. Roedd disgwyl y byddai 60% o ysgolion wedi cyrraedd Cam 3 erbyn 2012. Mae Sir Gaerfyrddin yn bwriadu cyrraedd y targed hwn erbyn diwedd 2010.

Mae nifer o wahanol asiantaethau'n gysylltiedig â'r cynllun ac mae'r cynllun wedi meithrin perthynas dda ag Ecosgolion ac Ysgolion Masnach Deg. Yn 2009/10 rydym wedi bod yn ymwneud â'r canlynol:

- Hyfforddi gyda Dim Smygu Cymru ar ymyriadau byr ar gyfer athrawon ysgolion uwchradd, cynorthwywyr Cymorth Dysgu a Gweithwyr Ieuenctid,
- Gweithio ar y cyd gydag ymgynghorydd ABCh ac athrawon ysgolion uwchradd i lunio cynllun gwaith ar gyfer athrawon ABCh uwchradd mewn Defnyddio a Chamddefnyddio Cyffuriau a Sylweddau,
- Gweithio gydag asiantaethau allanol i gynhyrchu pecyn hyfforddiant bwyd a ffitrwydd ar gyfer athrawon ABCh Cyfnod Allweddol 3,
- Hyfforddi athrawon ysgolion cynradd mewn rhyw a pherthnasoedd drwy'r DVD SENSE.
- Hyfforddiant i ysgolion ar agweddau o iechyd staff.
- Wedi gweithio gyda chydgysylltwyr PESS a swyddogion 5/60 i drefnu diwrnod iechyd ar Fwyd a Ffitrwydd ym Mhantycelyn gyda disgyblion pontio,
- Annog cydweithfeydd bwyd mewn ysgolion – saith mewn bodolaeth ar hyn o bryd.

Mae'r cynllun yn trefnu ymweliad chwe misol Bws Coginio Llywodraeth y Cynulliad, lle bydd disgyblion, rhieni ac athrawon yn cael gwersi sgiliau coginio, hylendid bwyd a bwyta'n iach. Eleni ymwelwyd ag ysgolion Y Tymbl, Llechyfedach, Llangadog ac ysgolion

cynradd bach yng ngogledd y sir. Mae cronfa ddata o 15 CookITs wedi'i greu, sef pecyn adnoddau coginio, sy'n cael ei ddosbarthu bob tymor i ysgolion cynradd y sir.

Mae'r cynllun wedi bod yn rhan o'r rhaglen hyfforddi ar addysg rhyw a pherthnasoedd i gyfoedion sy'n cynnwys sawl asiantaeth ac sy'n defnyddio arbenigedd y gwasanaeth iechyd rhyw, y gwasanaeth ieuenctid a'r awdurdod addysg lleol. Mae dros 100 o fyfyrwyr Blwyddyn 12/13 wedi'u hyfforddi i addysgu grwpiau o gyfoedion. Eleni, cafodd disgyblion Ysgol Uwchradd Caerfyrddin, Pantycelyn, Emlyn, Dyffryn Aman a'r Strade eu hyfforddi.

Sgiliau Allweddol yn Sir Gaerfyrddin

Mae'r ddarpariaeth Sgiliau Allweddol wedi parhau i gynyddu yn ystod blwyddyn academaidd 2009-10 ac mae pob ysgol yn y sir bellach wedi'u cymeradwyo i gyflwyno'r Cymhwyster Bagloriaeth Cymru.
Bydd yr ysgolion 14-19 a ddechreuodd gyflwyno'r cymhwyster yn 2009 yn cael eu hachredu yn 2011. Llwyddodd cyfanswm o 294 o ymgeiswyr o'r pedair ysgol oedd eisoes wedi'u cymeradwyo i gyflwyno'r Fagloriaeth i gael achrediad yn 2010 fel a ganlyn:

Ysgol	CBC Uwch	CBC Canolradd	CBC Sylfaen	Cyfanswm
Ysgol Emlyn	44			44
Ysgol y Strade	49			49
Ysgol Tregib	57	100	16	173
Ysgol Uwchradd y FE	28			28
			CYFANSWM:	**294**

Mae'r consortiwm o ysgolion yn Sir Gaerfyrddin, a ffurfiwyd ar gyfer achredu Sgiliau Allweddol drwy CBAC, yn parhau i fod yn llwyddiannus. Roedd cyfanswm o 7869 o unedau Sgiliau Allweddol wedi'u hachredu yn ystod blwyddyn academaidd 2009-10 (taenlen ynghlwm). Mae'r ffigurau hyn yn cynnwys achredu:

- Unedau Sgiliau Allweddol o bob Ysgol Uwchradd, gan gynnwys mwy o achredu Sgiliau Allweddol Ehangach yn enwedig ar Lefelau 2 a 3.

- Unedau Sgiliau Allweddol o dair Ysgol Gynradd sydd wedi'u cymeradwyo yn Ganolfannau CBAC i gyflwyno ac achredu Sgiliau Allweddol:

- Cynradd Abergwili – TGCh a Chyfathrebu
- Cynradd Maesymorfa – TGCh, Cyfathrebu a Gweithio gydag Eraill
- Ysgol Hen Heol – Cyfathrebu

- Unedau Sgiliau Allweddol oddi wrth wyth ysgol gynradd sydd wedi'u hachredu drwy Ysgol Tregib, sef: Cwm Ifor; Cwrt Henri; Ffair-fach; Llandeilo; Llandybie; Llanfynydd; Llansawel a Phen-y-groes

- Sgiliau Allweddol Cyfathrebu a TGCh oddi wrth 15 o 'Ddisgyblion mewn Perygl' ym Mlwyddyn 11 o ardaloedd Llanelli, Rhydaman a Chastell Newydd Emlyn, ynghyd â dau ddisgybl o'r Rhaglen NEETS
- Sgiliau Allweddol oddi wrth Ysgol Arbennig Heol Goffa
- Unedau Sgiliau Allweddol oddi wrth ddisgyblion sy'n mynychu'r rhaglen SMART

Hefyd mae Coleg Sir Gâr, Ysgol y Strade a Hyfforddiant Cyngor Gwledig Llanelli wedi trosglwyddo achrediad drwy CBAC o'r 1af o Fedi; bydd holl sgiliau 14-19 yn y sir felly yn cael eu hachredu drwy'r consortiwm.
Mae hyfforddiant staff a chymorth i'r staff wedi parhau gydol y flwyddyn gan gynnwys partneriaid addysg 14-19 yn y Gwasanaeth Ieuenctid, Rhaglen NEETS i'r Staff a chydweithredu â'r Coleg. Cynhaliwyd cyfarfodydd yn rheolaidd i wirio'n fewnol y gwaith a gwblhawyd i sicrhau cysondeb a sicrwydd ansawdd y portffolios Sgiliau Allweddol a gyflwynir i'w hachredu o fewn y sir.
Gan fod Sgiliau Hanfodol Cymru wedi'i gyflwyno o'r 1af o Fedi 2010 mae pob ysgol wedi gofyn am ragor o hyfforddiant i gynorthwyo gyda'r gwaith cynllunio. Trefnwyd bod yr hyfforddiant hwn yn cael ei gyflwyno mewn ysgolion unigol, yn rhaglen SMART, yn Hyfforddiant Cyngor Gwledig Llanelli ac yn y Coleg gan na all staff gael eu rhyddhau i fynychu rhaglenni HMS.

Fis Mawrth 2010 gwahoddwyd ysgolion gan CBAC i gymryd rhan mewn Rhaglen beilot ar Sgiliau Hanfodol yn ystod tymor yr haf. Cymerwyd rhan yn y rhaglen hon gan bump ysgol yn y sir, sef Bro Myrddin, Bryngwyn, Glanymôr, Tregib ac Ysgol Uwchradd y Frenhines Elizabeth ac maent wedi cyflwyno portffolios i'w cymedroli'n ffurfiannol. Bydd y portffolios hyn yn cael eu defnyddio (gyda chytundeb y Penaethiaid) i'w defnyddio gan CBAC fel enghraifft o waith i'w gyflwyno mewn hyfforddiant Sgiliau Hanfodol Cymru ar hyd a lled Cymru yn ystod y flwyddyn academaidd gyfredol.

Bydd parhau â'r hyfforddiant a'r datblygu yn hanfodol bwysig i gynorthwyo'r ysgolion i ymwreiddio'r sgiliau yn effeithiol ar draws y cwricwlwm 11-18 ac i ddatblygu'r Sgiliau Allweddol Ehangach eto fyth er mwyn bodloni gofynion Bagloriaeth Cymru, yn ogystal â'r newid i'r set newydd o gymwysterau, h.y. o Sgiliau Sylfaenol ac Allweddol i Sgiliau Hanfodol Cymru.

CYFLAWNIADAU SGILIAU ALLWEDDOL SIR GAERFYRDDIN 2009-2010

YSGOL	COMMS 1	COMMS 2	COMMS 3	CYFATHREBU 1	CYFATHREBU 2	CYFATHREBU 3	AON 1	AON 2	AON 3	ICT 1	ICT 2	ICT 3	ICT1 PROXY	ICT 2 PROXY	ICT 3 PROXY	WWO 1	WWO 2	WWO 3	PS 1	PS 2	PS 3	IOLP 1	IOLP 2	IOLP 3	CYFANSYMIAU
Aalton House	6																								6
Dyffryn Aman	210	22	1	61	229				4			1	89	99					244						960
Bro Myrddin			4	32	98	24		77	53					23					6						317
Bryngwyn	11						197	141	12	1	124									126					612
Coedcae	1						214			1				2	107	177									502
Dyffryn Taf							7																		7
Emlyn	105	111	55					191			53			116	1			51		105	55			56	899
Glanymôr	38	37		101			103	1		66		3					4		9						362
Gwendraeth	7	24	23				16	2	14	7	18					51	4								166
Heol Goffa																7									7
Maes-yr-Yrfa	11	1	13	142		12	83		1	89	13	1		9		54									429
Pantycelyn	10	77						50			119	3								89	30				378
Uwchradd y Frenhines Elisabeth	12		78				58	96		87	101				1	14		39			29	50		22	587
Rhydygors																									0
Sant Ioan Llwyd	1	86	1								100					14			1						203
Tregib	7	146	53				10	140	58	41	259	61			26	33	140	59	42	95	50	5	89	48	1362
Gwasanaeth Ieuenctid (SMART)																						6			6
Ysgol y Strade				189	17	53	134	50	59	125						204		53			53	36		53	1026
Cynradd Abergwili				6						4															10
Cynradd Maesymorfa	6									6						6									18
Cynradd Heol Hen	12																								12
CYFANSYMIAU:	437	504	228	531	344	89	822	748	201	427	787	69	89	249	135	560	148	202	302	415	217	97	89	179	7869

(ffigyrau mewn gwyrdd yn dynodi portffolios sydd wedi eu cyflwyno trwy gyfrwng y Gymraeg)

Ystadegau Gwobrau Dug Caeredin

- Cofrestrodd 947 o bobl ifanc y llynedd - 6% yn fwy na'r flwyddyn flaenorol (yr 2ail yng Nghymru)
- Llwyddodd 459 o bobl ifanc gwblhau eu cwrs y llynedd (yr 2ail yng Nghymru)
- Ni oedd â'r nifer uchaf o ddechreuwyr newydd fel % o'r boblogaeth yng Nghymru - 3.8
- Ni ddaeth yn 3ydd yng Nghymru o ran y Gwobrau a enillwyd fel canran o'r 14-25 - 1.85
- Ysgol y Strade oedd â'r nifer uchaf o bobl ifanc yn llwyddo i ennill Gwobr drwy gyfrwng y Gymraeg o'i gymharu ag unrhyw ysgol arall yng Nghymru, ac yn ail agos oedd Maes yr Yrfa.
- Bu cynnydd o 6% yn y nifer o bobl ifanc a gwblhaodd Gwobr Dug Caeredin drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Treuliwyd rhyw 11450 o oriau pobl ifanc yn gwneud gwaith gwirfoddol yn y gymuned y llynedd (fel rhan o Wobr Dug Caeredin).

Llythrennedd a Chwarae /Rhifedd a Chwarae

- Para i dargedu ysgolion fel rhan o drosglwyddo
- Llawer o'r ysgolion yn parhau i gynnig cefnogaeth yn dymhorol i'r teuluoedd a'u plant y tymor cyn iddynt ddechrau addysg llawn amser.
- Gweithio mewn partneriaeth ar draws y tair ardal o Ddyfed yn parhau
- Dal i weithio ar y cyd gyda Dechrau'n Deg yn yr ardaloedd penodol
- Dal i weithio ar y cyd gyda Rhaglenni Teulu er mwyn sicrhau darpariaeth

Cyngor Llyfrau Cymraeg – Cwis Llyfrau Blynyddol

Cwis Llyfrau 2009-10

Rownd 1af Sir Gâr

16 o ysgolion cynradd wedi cymryd rhan

Golyga hyn 64 disgybl yn trafod llyfr Cymraeg

Ail Rownd Sir Gâr

7 ysgol drwyddo i'r ail rownd

Trafod llyfrau ychwanegol – 28 disgybl

Cyflwyniadau ar lyfrau dethol – 80 disgybl

Rownd Genedlaethol (Aberystwyth)

(Bl 3/4) Ysgol y Dderwen yn cynrychioli Sir Gâr

(Bl 5/6) Ysgol Dewi Sant yn cynrychioli Sir Gâr - Dod yn 2il dros Gymru gyfan!

Adran 5
Gwaharddiadau yn ysgolion Sir Gaerfyrddin 2009-10

Yn ystod 2009/10 gwelwyd gostyngiad yn y nifer o ddisgyblion gafodd eu gwahardd yn barhaol ac am gyfnod penodol gan sicrhau bod pob un o'r targedau DP [ar gyfer ysgolion uwchradd a chynradd] a gyflwynwyd i'r Cynulliad wedi'u diwallu neu yn y mwyafrif o achosion wedi'u rhagori.

Gwaharddiadau Parhaol

I gychwyn gwnaed chwech gwaharddiad parhaol yn ystod y flwyddyn. Serch hynny cafodd dau eu gwrthdroi ar apêl gan ddod â'r ffigur i lawr o un ar ddeg yn 2008/9 i bedwar yn 2009/10. Roedd y rhesymau am y gwaharddiadau ym mhob achos yn dod o fewn y categori 'trais corfforol/geiriol yn erbyn staff/disgyblion'. Nid oedd unrhyw waharddiad parhaol o ysgolion cynradd ac roedd y gwaharddiadau yn yr ysgolion uwchradd wedi'u cyfyngu i dair ysgol.

Gwaharddiadau Cyfnod Penodol

Dros y blynyddoedd diweddar hyn mae'r berthynas rhwng gwaharddiadau parhaol a gwaharddiadau cyfnod penodol wedi dangos bod nifer y gwaharddiadau cyfnod penodol yn cynyddu wrth i'r gwaharddiadau parhaol ostwng. Am y tro cyntaf eleni mae'r patrwm hwn wedi newid gyda'r gwaharddiadau cyfnod penodol hefyd yn gostwng. Mae'r gwaharddiadau uwchradd wedi gostwng o fwy na 1800 o ddiwrnodau i 1484.5 o ddiwrnodau tra bod ffigurau cynradd wedi gostwng yn sylweddol o dros 200 i 69.5 o ddiwrnodau.

	2009/10				
	Disgyblion Uwchradd				Cyfanswm
Ysgolion	Parhaol	Dros-dro≤5	Dros-dro≥6	Disgyblion	Diwrnodau
Dyffryn Aman		55	0	55	128
Bro Myrddin		5	0	5	7
Bryngwyn	1	35	3	38	87
Coedcae	1	60	0	60	88.5
Dyffryn Taf		24	0	24	52
Emlyn		12	6	18	76
Glanymôr		118	8	126	287
Gwendraeth		37	3	40	146
Maes yr Yrfa		0	0	0	0
Pantycelyn		26	0	26	52
Uwchradd y Frenhines Elisabeth	2	98	13	111	372.5
Strade		12	0	12	31
Tregib		26	4	30	86
Sant Ioan Llwyd		24	1	25	71.5
Cyfansymiau	**4**	**532**	**38**	**570**	**1484.5**

Canran y Plant sy'n Derbyn Gofal a waharddwyd yn barhaol o'r ysgol yn y flwyddyn 1 Ebrill – 31 Mawrth



	2007/08	2008/09	2009/10
Diwedd Blwyddyn	0	0	0.8

Nifer y Diwrnodau ar gyfartaledd a dreuliwyd allan o'r ysgol ar Waharddiadau Cyfnod Penodol gan Blant sy'n Derbyn Gofal a waharddwyd yn y flwyddyn 1 Ebrill – 31 Mawrth



	2007/08	2008/09	2009/10
Diwedd Blwyddyn	22	3.6	5.3

Adran 6
Presenoldeb yn ysgolion Sir Gaerfyrddin 2009-10

Trosolwg

Mae'r Gwasanaeth Lles Addysg yn darparu rôl statudol ar gyfer yr Adran Addysg a Phlant i gynorthwyo a chynghori Ysgolion, Rhieni a Phlant ar faterion lles er mwyn sicrhau bod y plant yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd. Fis Ebrill 2010 daeth y Gwasanaeth Lles Addysg yn rhan o'r maes gwasanaeth ehangach 'Rhianta Corfforaethol a Lles Plant' gyda'r nod o gymryd cyfrifoldeb ychwanegol am fonitro presenoldeb plant sy'n derbyn gofal. Hefyd bydd y gwasanaeth yn rhoi arweiniad ar ddatblygu dulliau o gael tîm o gwmpas y plentyn i alluogi Ysgolion a gweithwyr proffesiynol weithio gyda'i gilydd i fynd i'r afael â materion lles ar gyfer plant agored i niwed a'u teuluoedd.

Mae'r gwasanaeth yn cynnwys 9 Swyddog Lles Addysg ac 1 Uwch Swyddog Lles Addysg.

Mae gan bob ysgol Swyddog Lles Addysg a enwir sydd â'r cyfrifoldeb o weithio o fewn dalgylch ysgol benodol.

Hefyd mae gan y Gwasanaeth Lles Addysg gyfrifoldeb am fonitro a thrwyddedu cyflogaeth plant a pherfformiad plant ar draws yr Awdurdod.

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r data lleol a chenedlaethol ar bresenoldeb disgyblion.

Casglu Data

Mae ffigurau presenoldeb disgyblion unigol ar gyfer y datganiad presenoldeb yn cael eu bwydo'n awtomatig gan system gwybodaeth reoli yr ysgol ac mae'n hanfodol bod pob data perthnasol am ddisgyblion yn cael ei gofnodi'n gywir ar y system cyn creu'r datganiad.

Diffiniadau

Mae'r wybodaeth am absenoldeb yn ymwneud â:-

- Disgyblion Cynradd /Uwchradd o oed ysgol gorfodol (5 - 16) a gofrestrwyd mewn ysgolion prif-ffrwd, ysgolion arbennig ac ysgolion annibynnol.
- Y canran o sesiynau hanner diwrnod a gollwyd oherwydd absenoldebau heb ganiatâd a'r canran a gollwyd oherwydd pob absenoldeb.
- Mae pob absenoldeb yn cynnwys absenoldeb gyda chaniatâd a heb ganiatâd.

- Absenoldeb â chaniatâd yw absenoldeb lle cafwyd caniatâd gan athro neu gynrychiolydd arall ag awdurdod yn yr ysgol. Mae hyn yn cynnwys absenoldeb lle rhoddwyd esboniad boddhaol amdano (e.e. salwch, profedigaeth yn y teulu, gwyliau crefyddol).
- Absenoldeb heb ganiatâd yw absenoldeb lle na chafwyd caniatâd gan athro neu gynrychiolydd arall ag awdurdod yn yr ysgol. Mae hwn yn cynnwys pob absenoldeb heb esboniad neu absenoldeb heb gyfiawnhad.

Data Presenoldeb yn 2009/2010

Y ffigur cyfartalog ar gyfer presenoldeb disgyblion yn ysgolion Sir Gaerfyrddin yn 2009/10 yw 91.2% ar gyfer Ysgolion Uwchradd Prif-ffrwd ac AAA a 92.9% ar gyfer Ysgolion Cynradd Prif-ffrwd ac AAA.

Ystadegau Cymru Gyfan yn 2009/10 yw 91.1% ar gyfer Ysgolion Uwchradd Prif-ffrwd ac AAA a 93.1% ar gyfer Ysgolion Cynradd Prif-ffrwd ac AAA.

Roedd Ysgolion Uwchradd Sir Gaerfyrddin ar gyfartaledd 0.1% yn uwch na chyfartaledd Cymru, ac ysgolion Cynradd 0.2% yn is na chyfartaledd Cymru.

Mae'r data isod yn cynrychioli'r 114 o Ysgolion Cynradd a'r 14 o Ysgolion Uwchradd yn Sir Gaerfyrddin.

Crynodeb o'r 114 o Ysgolion Cynradd yn Sir Gaerfyrddin 2009/10

Oed	Dyddiad geni	Presenoldeb (%)			Absenoldeb gyda chaniatâd (%)			Absenoldeb heb ganiatâd (%)		
		Bechgyn	Merched	Cyfanswm	Bechgyn	Merched	Cyfanswm	Bechgyn	Merched	Cyfanswm
12 neu hŷn	31/08/1997 a chyn hynny	76.5	81.3	78.7	23.5	18.7	21.3	0.0	0.0	0.0
11	01/09/1997 - 31/08/1998	78.3	70.9	74.4	21.7	28.8	25.4	0.0	0.2	0.1
10	01/09/1998 - 31/08/1999	92.8	93.1	92.9	6.5	6.3	6.4	0.8	0.6	0.7
9	01/09/1999 - 31/08/2000	93.1	92.8	93.0	6.3	6.5	6.4	0.6	0.7	0.7
8	01/09/2000 - 31/08/2001	93.1	93.1	93.1	6.3	6.3	6.3	0.6	0.6	0.6
7	01/09/2001 - 31/08/2002	93.4	93.1	93.2	5.9	6.3	6.1	0.8	0.6	0.7
6	01/09/2002 - 31/08/2003	92.9	93.2	93.1	6.5	6.3	6.4	0.5	0.4	0.5
5	01/09/2003 - 31/08/2004	92.4	92.3	92.4	6.9	7.0	6.9	0.7	0.7	0.7
Pob oed		**92.9**	**92.9**	**92.9**	**6.4**	**6.5**	**6.5**	**0.7**	**0.6**	**0.6**

Mae presenoldeb yn Ysgolion Cynradd Sir Gaerfyrddin yn dda iawn ar y cyfan ac yn unol â'r cyfartaledd am Gymru Gyfan. Caiff y wybodaeth a gedwir ar Integris (systemau rheoli gwybodaeth ysgolion) ei diweddaru yn gyson, ac mae'r Swyddogion Lles Addysg yn cadw golwg ar y lefelau presenoldeb. Mae absenoldeb heb ganiatâd yn isel iawn, a'r rhesymau am absenoldeb heb ganiatâd yw salwch a rhieni'n tynnu'r plant allan o'r ysgol i fynd ar wyliau yn ystod y tymor.

Data presenoldeb Cynradd

	2005/06	2006/07	2007/08	2008/09	2009/10
% Absenoldeb Sir Gaerfyrddin ar gyfartaledd	7.6	7.6	7.6	6.9	7.1
Cyfartaledd Cymru Gyfan	7.5	6.9	6.7	6.8	6.9
Y gwahaniaeth rhwng Sir Gaerfyrddin a Chymru Gyfan	- 0.1	- 0.7	-0.9	-0.1	-0.2
Safle yng nhabl Cymru		13	14	13	12



Crynodeb o'r 14 Ysgol Uwchradd yn Sir Gaerfyrddin 2009/10

Oed	Dyddiad geni	Presenoldeb (%)			Absenoldeb gyda chaniatâd (%)			Absenoldeb heb ganiatâd (%)		
		Bechgyn	Merched	Cyfanswm	Bechgyn	Merched	Cyfanswm	Bechgyn	Merched	Cyfanswm
15	01/09/1993 - 31/08/1994	91.5	89.3	90.4	7.6	9.4	8.5	0.9	1.3	1.1
14	01/09/1994 - 31/08/1995	90.9	90.3	90.6	8.1	8.8	8.4	1.0	0.8	0.9
13	01/09/1995 - 31/08/1996	90.6	90.8	90.7	8.7	8.5	8.6	0.7	0.6	0.7
12	01/09/1996 - 31/08/1997	91.4	91.2	91.3	7.9	8.3	8.1	0.7	0.6	0.6
11	01/09/1997 - 31/08/1998	92.4	93.1	92.8	7.1	6.6	6.9	0.4	0.3	0.4
10	01/09/1998 - 31/08/1999	98.8	0.0	98.8	1.2	0.0	1.2	0.0	0.0	0.0
Iau na 10	01/09/1999 - 01/01/3002	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0
Pob oed		**91.4**	**90.9**	**91.1**	**7.9**	**8.4**	**8.1**	**0.7**	**0.7**	**0.7**

Data Presenoldeb fesul Ysgol Uwchradd

Ysgol Uwchradd	Nifer y Disgyblion	Absenoldeb heb Ganiatâd	Presenoldeb %	Absenoldeb gyda Chaniatâd %
Bryngwyn	845	0.9	90.8	8.3
Coedcae	1056	0.6	91.6	7.8
St John Lloyd	502	0.6	89.3	10.1
Ysgol Strade	977	0.7	92.1	7.2
Glan y Môr	621	0.7	90	9.3
Maes yr Yrfa	784	0	92.6	7.4
Ysgol Gwendraeth	444	1	89.9	9.1
Dyffryn Aman	1683	0.2	90.8	9
Tregib	990	0.9	91.7	7.4
Pantycelyn	391	0.5	91.8	7.7
Bro Myrddin	891	0	93.6	6.4
Uwchradd y FE	1460	2.3	90.3	7.4
Ysgol Dyffryn Taf	1046	0.2	90.7	9.1
Ysgol Gyfun Emlyn	697	1.6	90	8.4
Cyfartaledd		0.7	91.1	8.1

Data Presenoldeb Uwchradd

	2005/06	2006/07	2007/08	2008/09	2009/10
% Absenoldeb Sir Gaerfyrddin ar gyfartaledd	10	9.1	9.3	9.2	8.8
Cyfartaledd Cymru Gyfan	9.8	9.3	8.8	9.0	8.9
Y gwahaniaeth rhwng Sir Gaerfyrddin a Chymru Gyfan	+0.2	- 0.2	+0.5	-0.2	+0.1
Safle yng nhabl Cymru	12	9	13	14	11



Crynodeb o bresenoldeb plant sy'n derbyn gofal.



Mae presenoldeb Plant sy'n Derbyn Gofal mewn Ysgolion Cynradd yn dal yn uwch na'r cyfartaledd am Gymru Gyfan.



Mae presenoldeb Plant sy'n Derbyn Gofal mewn Ysgolion Uwchradd yn debyg iawn i'r cyfartaledd am Gymru Gyfan.

Datblygiadau yn y dyfodol

Bydd gweithredu dulliau o gael tîm o gwmpas y plentyn yn codi'r momentwm yn 2010/2011 gyda'r Gwasanaeth yn datblygu amrediad o gynlluniau peilot o fewn eu hysgolion.